# Agenda - Y Pwyllgor Deisebau

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 1 - Y Senedd**

**Hybrid**

Dyddiad: Dydd Llun, 22 Ebrill 2024

Amser: 14.00

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Gareth Price** - Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

Deisebau@senedd.cymru

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(Tudalennau 1 - 37)

1.1 P-06-1359 Dylid cynnig yr un cymorth ariannol ar gyfer gofal plant i rieni sy'n gweithio yng Nghymru â'r hyn sydd ar gael yn Lloegr

1.2 P-06-1362 Dylid darparu cynnig cyfatebol yng Nghymru i'r cynnig gofal plant newydd yn Lloegr, sef 15 awr, ar gyfer plant 2 flwydd oed o fis Ebrill 2024

## 2 Deisebau newydd

2.1 P-06-1397 Cyflwyno opsiwn prawf ceg y groth yn y cartref yng Nghymru

(Tudalennau 38 - 43)

2.2 P-06-1398 Cynyddu effeithiolrwydd gwaith Cyfoeth Naturiol Cymru i atal llygredd yn y Teifi.

(Tudalennau 44 - 56)

2.3 P-06-1399 Dylai Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AAGIC) wneud Anhwylder Dysfforig Cyn Mislif (PMDD) yn fodiwl datblygiad proffesiynol parhaus gorfodol mewn addysg feddygol ôl-radd.

(Tudalennau 57 - 75)

2.4 P-06-1400 Adnoddau Teg a Digonol ar gyfer Practisau Cyffredinol yng Nghymru

(Tudalennau 76 - 85)

2.5 P-06-1405 Mae eisiau ac mae angen uned Iechyd Meddwl â gwelyau i ddynion arnom ni yng Ngogledd Cymru

(Tudalennau 86 - 93)

2.6 P-06-1407 Rydym am i Lywodraeth Cymru ddiddymu'r gyfraith drychinebus ynghylch y terfyn cyflymder o 20mya

(Tudalennau 94 - 104)

2.7 P-06-1412 Rydym am i Lywodraeth Cymru gadw'r gyfraith 20mya ardderchog

2.8 P-06-1418 Dylid cyflwyno deddfwriaeth newydd i ddiogelu meysydd chwaraeon rhag baw cŵn

(Tudalennau 105 - 110)

## 3 Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol

3.1 P-06-1209 Dylid creu rhestr o bob gofalwr di-dâl yng Nghymru

(Tudalennau 111 - 113)

3.2 P-06-1217 Agor canolfannau/clinigau meddygol un stop Covid Hir

(Tudalennau 114 - 116)

3.3 P-06-1247 Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i arwain y ffordd drwy gefnogi treialon wythnos waith pedwar diwrnod yng Nghymru.

(Tudalennau 117 - 118)

Yr wythnos waith 4 diwrnod: gwybodaeth gan bartneriaeth gymdeithasol [HTML] | LLYW.CYMRU

3.4 P-06-1299 Dylai "Rhewi ar adeiladu ffyrdd" Llywodraeth Cymru gynnwys cymal ar gyfer achosion sy'n peri perygl i fywyd

(Tudalennau 119 - 122)

3.5 P-06-1338 Ymestyn y cynllun brys ar gyfer y sector bysiau a datblygu cynllun adfer cenedlaethol ar gyfer bysiau

(Tudalennau 123 - 133)

3.6 P-06-1348 Comisiynu gwasanaethau GIG addas yng Nghymru ar gyfer pobl ag EDS neu anhwylderau sbectrwm hypersymudedd

(Tudalennau 134 - 138)

3.7 P-06-1387 Darparu cymorth dyngarol i Gaza

(Tudalennau 139 - 140)

3.8 P-06-1391 Dylid rheoleiddio'r sector steilio cŵn, er mwyn diogelu lles cŵn a hawliau perchnogion

(Tudalennau 141 - 143)

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog Rhif 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

## 5 Adroddiad drafft

(Tudalennau 144 - 162)

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Senedd Cymru | Welsh Parliament
**Ymchwil y Senedd | Senedd Research**

# Cyflwyno opsiwn prawf ceg y groth yn y cartref yng Nghymru

Y Pwyllgor Deisebau | 22 Ebrill 2024
Petitions Committee | 22 April 2024

Cyfeirnod: SR24/7850-3

Rhif y ddeiseb: P-06-1397

Teitl y ddeiseb: Cyflwyno opsiwn prawf ceg y groth yn y cartref yng Nghymru

Geiriad y ddeiseb: Canser ceg y groth yw'r math mwyaf cyffredin o ganser mewn menywod o dan 35 mlwydd oed. Yn ôl Cancer Research UK, mae modd atal 99.8% o achosion yn y DU. Gall profion ceg y groth achub bywydau drwy ganfod unrhyw newidiadau cyn-ganseraidd yn gynnar pan fydd triniaethau'n fwy effeithiol.
Ar hyn o bryd mae rhwystrau sy'n atal menywod a'r rhai a bennwyd yn fenywod adeg eu geni rhag cael mynediad at y gwasanaeth hwn. Yn Lloegr cynhaliwyd rhai treialon profion ceg y groth yn y cartref, a chredwn y gall yr opsiwn hwnnw yng Nghymru helpu i chwalu'r rhwystrau hyn ac achub bywydau.

Mae rhesymau pam nad yw menywod yn mynd i gael eu profion sgrinio ceg y groth. Gall y rhesymau gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i,:-
Embaras
Diffyg addysg
Nid yn uniaethu fel menyw
Canfyddiadau isel o risg
Diffyg ymddiriedaeth mewn gwasanaethau iechyd

Rhwystrau diwylliannol
Pryder am y prawf
Problemau o ran delwedd y corff
Trawma - ymosodiad rhywiol, treisio
Amseroedd anghyfleus o ran apwyntiadau

Cafodd ei dreialu yn Llundain yn 2021. Dywedodd Dr Anita Lim, o King's College Llundain, sy'n arwain y treial YouScreen:
"Mae'n hanfodol ein bod yn dod o hyd i ffyrdd fel hyn o wneud sgrinio'n haws, ac amddiffyn menywod rhag canser y gellir, i raddau helaeth, ei atal. Mae hunan-samplu yn rhywbeth cyffrous iawn. Mae'r swab syml a chyfleus hwn yn golygu y gellir ei wneud ym mhreifatrwydd a chysur eich cartref eich hun."

Dywedodd Molly Fenton, un sy'n gweithredu dros hawliau menywod yng Nghymru: "Yn ddelfrydol, mae angen i lawer o bethau newid: gwell addysg, sgyrsiau sy'n dileu stigma, a sicrwydd ynghylch y prawf, ond yn y tymor byr gallai hyn achub llawer o fywydau ifanc. Gall achub, yn enwedig, fywydau ifanc 25 mlwydd oed sy'n cael y prawf am y tro cyntaf."

# 1. Y cefndir

Sgrinio Serfigol Cymru sy'n gyfrifol am raglen sgrinio serfigol GIG Cymru. Gall sgrinio serfigol atal canser ceg y groth rhag datblygu, neu ei ddarganfod yn gynnar. Mae'r prawf sgrinio serfigol (ceg y groth) yn edrych am fathau risg uchel o Feirws Papiloma Dynol (HPV) sy'n gallu achosi newidiadau yn y celloedd ar y serfics.

Mae hunan-samplu yn golygu bod pobl yn gallu cymryd swab o'r wain eu hunain, a gallant wneud hynny gartref neu mewn clinig. Nid yw hyn yn rhan o raglenni sgrinio serfigol fel mater o drefn yn y DU.

Mae'r erthygl hon gan y BBC (Awst 2023) yn tynnu sylw at alwadau gan ymgyrchwyr i gyflwyno profion ceg y groth yn y cartref yng Nghymru.

Dywed Cancer Research UK fod canfyddiadau cychwynnol y gwaith ymchwil ar y broses hunan-samplu yn galonogol, ond mae angen mwy o ymchwil i gael dealltwriaeth well o ba mor ymarferol fyddai cyflwyno'r broses hunan-samplu fel rhan o raglenni sgrinio serfigol, gan gynnwys effeithiolrwydd clinigol a pha mor gost-effeithiol fyddai hyn, yn ogystal ag unrhyw effaith ar anghydraddoldeb.

Sefydlwyd astudiaeth yn 2021 yn Lloegr fel cam cyntaf i ddarganfod a ellid cynnig hunan-samplu fel opsiwn  ochr yn ochr â'r prawf sgrinio serfigol traddodiadol a gaiff ei gynnal gan glinigwr. Mae'r astudiaeth hon, HPValidate, yn casglu 5,000 o samplau o feddygfeydd a 1,750 o samplau o glinigau colposgopi i bennu cywirdeb hunan-samplau o'r wain o'u cymharu â samplau a gasglwyd gan glinigwyr. Disgwylir i HPValidate gyflwyno adroddiad ar y canlyniadau terfynol yn gynnar yn 2024.

## 2. Camau a gymerwyd gan Senedd Cymru

Ym mis Hydref 2023 ymatebodd Llywodraeth Cymru i gwestiwn ysgrifenedig yn holi ynghylch unrhyw gynlluniau i gynnwys profion ceg y groth yn y cartref fel rhan o'r rhaglen sgrinio bresennol ar gyfer canser serfigol yng Nghymru.

Yn 2023 cynhaliodd Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol y Senedd ymchwiliad i ganserau gynaecolegol, a oedd yn cynnwys ystyried hunan-samplu ar gyfer canserau serfigol. Dywedodd Iechyd Cyhoeddus Cymru wrth y Pwyllgor y bydd argymhellion Pwyllgor Sgrinio Cenedlaethol y DU (NSC) ynghylch y broses hunan-samplu (yn dilyn y treialon) yn cael eu hystyried gan Bwyllgor Sgrinio Cymru pan fyddant ar gael, a bydd Sgrinio Serfigol Cymru yn cael eu llywio gan y rhain wrth gyflwyno unrhyw newidiadau i'r rhaglen. Daeth y Pwyllgor i'r casgliad a ganlyn:

> Mae hunan-samplu yn ddatblygiad cyffrous a allai helpu i fynd i'r afael â rhai o'r rhesymau dros beidio â mynychu apwyntiadau sgrinio serfigol, megis embaras. Edrychwn ymlaen at ganlyniadau'r astudiaethau peilot yn Lloegr ac rydym yn croesawu ymrwymiad y Gweinidog i gefnogi cyflwyno hunan-samplu yng Nghymru, os caiff y broses ei dilysu. Fodd bynnag, rhaid i Lywodraeth Cymru weithredu nawr i sicrhau bod y GIG wedi'i sefydlu a'i bod yn barod i gyflwyno hyn cyn gynted â phosibl, os caiff ei gymeradwyo.[…]
>
> **Argymhelliad 10:** Dylai Llywodraeth Cymru, yn ei hymateb i'r adroddiad hwn, amlinellu pa waith sy'n cael ei wneud i sicrhau bod GIG Cymru yn barod i roi'r broses hunan-samplu ar waith yn gyflym, os caiff ei chymeradwyo. Dylai hyn gynnwys manylion am unrhyw broses ailgyfeirio adnoddau a allai fod yn angenrheidiol

Ymatebodd Llywodraeth Cymru i'r adroddiad ym mis Mawrth 2024.

# 3. Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru yn dweud ei bod hi, fel gweddill y DU, yn dilyn y cyngor arbenigol gan NSC y DU ar faterion sgrinio.

> The UK NSC is yet to make a recommendation on self-sampling for cervical screening and there is a lot more work to do before it can be implemented. In 2019 the Committee issued a call for more evidence into the use of self-sampling in cervical screening. The Committee is currently considering the available evidence and there are plans for an in-service evaluation that will provide the UK NSC with real world evidence on the effectiveness of offering HPV self-sampling in cervical screening.

Mae Llywodraeth Cymru yn dweud bod hyn yn ddatblygiad addawol iawn ond, cyn y gellir rhoi proses hunan-samplu ar waith, mae angen i ni sicrhau ei fod yn ddull diogel ac effeithiol o ddarganfod HPV, gan y gallai anfanteision unrhyw ostyngiad yng nghywirdeb y prawf fod yn drech na manteision gwella mynediad at ofal iechyd gan ychwanegu at y risg i iechyd menywod.  Dywed y bydd yn aros am y canfyddiadau hyn ac unrhyw argymhelliad dilynol gan NSC y DU.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw’r papurau briffio hyn yn cael eu diweddaru o reidrwydd na’u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.

**Eluned Morgan AS/MS**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref: P-06-1397
Ein cyf/Our ref: EM/00164/24

Jack Sargeant AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Caerdydd
CF99 1SN

11 Mawrth 2024

Annwyl Jack,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 18 Ionawr yn rhinwedd eich swydd yn Gadeirydd y Pwyllgor Deisebau.

Rwyf o blaid yr angen i wella mynediad at brofion sgrinio serfigol ac annog mwy o bobl i fanteisio arnynt pan gânt eu gwahodd. Yn 2018, Cymru oedd y wlad gyntaf yn y DU i roi profion am feirws papiloma dynol (HPV) risg uchel ar waith fel y prawf sgrinio sylfaenol. Mae hwn yn brawf mwy penodol sy'n golygu bod canlyniad negyddol yn fwy cywir a bydd yn achub mwy o fywydau drwy bennu risg menyw o ganser yn gynt. Mae gennym hefyd raglen frechu yn erbyn HPV ar waith sy'n cynnig brechiad i bawb sydd ym mlwyddyn 8 ysgolion, gyda gweithgarwch dal i fyny yn cael ei gynnal ym mlwyddyn 9 a 10 ysgolion. Mae'r brechlyn HPV yn effeithiol iawn ar gyfer amddiffyn rhag canserau a achosir gan HPV, gan gynnwys canser ceg y groth. Drwy gyfuniad o frechu a phrofion sgrinio serfigol, gobeithiwn weld gostyngiad sylweddol yn nifer yr achosion o ganser ceg y groth.

Fel gweddill y DU, rydym yn dilyn cyngor arbenigol Pwyllgor Sgrinio Cenedlaethol y DU ar faterion yn ymwneud â sgrinio. Hyd yma, nid yw'r Pwyllgor wedi gwneud argymhelliad ar hunansamplu ar gyfer sgrinio serfigol ac mae llawer mwy o waith i'w wneud cyn y gellir ei roi ar waith. Yn 2019, cyhoeddodd y Pwyllgor gais am ragor o dystiolaeth o'r defnydd o hunansamplu ar gyfer sgrinio serfigol. Mae'r Pwyllgor wrthi'n ystyried y dystiolaeth sydd ar gael ac mae cynlluniau ar gyfer cynnal gwerthusiad mewn gwasanaeth. Bydd y gwerthusiad hwn yn rhoi tystiolaeth o'r byd go iawn i'r Pwyllgor ynghylch effeithiolrwydd cynnig hunansamplu am HPV ym maes sgrinio serfigol.

Mae hwn yn ddatblygiad addawol iawn a allai, os caiff ei argymell, annog mwy o bobl i fanteisio ar y cynnig o brofion sgrinio drwy eu galluogi i gynnal y prawf eu hunain, ym mhreifatrwydd eu cartref eu hunain ac ar adeg o'u dewis. Fodd bynnag, cyn y gellir rhoi hunansamplu ar waith, mae angen inni sicrhau ei fod yn ddull diogel ac effeithiol ar gyfer

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

canfod HPV. Gallai unrhyw ostyngiad yng nghywirdeb y prawf a allai ddeillio o'r dull hwn o gasglu samplau orbwyso'r manteision o ran mynediad gwell gan roi pobl mewn mwy o berygl. Ein dull fydd aros am y canfyddiadau hyn ac unrhyw argymhelliad dilynol gan Bwyllgor Sgrinio Cenedlaethol y DU.

Rwyf hefyd o'r farn ei bod yn bwysig ein bod yn cydnabod gwelliannau o ran cyfraddau goroesi a marwolaethau yn sgil canser ceg y groth. Mae cyfraddau goroesi heb eu safoni blwyddyn a phum mlynedd wedi gwella i 86% a 71% yn y drefn honno, yn ôl ffigurau 2016-20. Rhwng 2002 a 2021, mae'r gyfradd marwolaethau wedi'i safoni yn ôl oedran fesul 100,000 o bobl wedi gostwng o fod dros 4.1 i 2.9. Rydym wedi ymrwymo i barhau i wella canlyniadau canser yng Nghymru drwy gyfuniad o atal, canfod yn gynnar, a thriniaethau gwell.

Yn ogystal, mae ein Datganiad Ansawdd ar gyfer Iechyd Menywod a Merched yn nodi'r hyn y mae disgwyl i fyrddau iechyd ei gyflawni er mwyn sicrhau gwasanaethau iechyd o ansawdd da i helpu menywod a merched ledled Cymru. Rydym wedi gosod tasg i GIG Cymru lunio cynllun iechyd menywod cynhwysfawr deng mlynedd o hyd. Bydd y cynllun hwn yn gweithredu fel cyfrwng i drawsnewid y gofal a roddir i fenywod Cymru drwy gydol eu bywydau.

Diolch ichi am ysgrifennu ataf ynghylch y mater hwn.

Yn gywir**,**

**Eluned Morgan AS/MS**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

Senedd Cymru | Welsh Parliament
**Ymchwil y Senedd | Senedd Research**

# Cynyddu effeithiolrwydd gwaith Cyfoeth Naturiol Cymru i atal llygredd yn y Teifi

Y Pwyllgor Deisebau | 22 Ebrill 2024
Petitions Committee | 22 April 2024

Cyfeirnod: SR24/7850-4

**Rhif y ddeiseb**: P-06-1398

**Teitl y ddeiseb:** Cynyddu effeithiolrwydd gwaith Cyfoeth Naturiol Cymru i atal llygredd yn y Teifi

**Geiriad y ddeiseb:** Mae'r afon Teifi yn marw oherwydd lefelau llygredd. Rydym yn galw ar y Senedd i gynyddu'r cyllid a roddir i Gyfoeth Naturiol Cymru i'w alluogi i gyflawni ei rwymedigaethau mewn perthynas â monitro iechyd yr afon a gorfodi gofynion cyfreithiol.

Rydym hefyd yn galw ar y Senedd i sicrhau bod Cyfoeth Naturiol Cymru yn cael ei ddwyn i gyfrif am ei berfformiad. Byddai hyn yn helpu i ddiogelu'r Teifi ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol, fel y cynigir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.

Mae lefelau llygredd yn y Teifi yn uchel. Mae niferoedd eogiaid, dyfrgwn a bywyd dyfrol arall yn gostwng yn ddifrifol.

Mae'r Teifi yn Ardal Cadwraeth Arbennig sydd dan fygythiad oherwydd llygredd a newid hinsawdd. Mae data a ddarparwyd gan Gyfoeth Naturiol Cymru yn dangos bod ansawdd dŵr isel yr afon yn golygu bod 78 y cant o'r cyrff dŵr yn y dalgylch wedi'u categoreiddio'n 'wael' neu'n 'gymedrol' o dan yr Asesiad Fframwaith Dŵr.

Yn yr un modd, mae rhannau helaeth o'r afon yn methu â chyrraedd lefelau targed o ran ffosffadau ac mae astudiaeth gan Gyfoeth Naturiol Cymru yn

dangos bod y poblogaethau eog a lamprai mewn perygl o ddiflannu yn ystod y 15 mlynedd nesaf.

Mae newid hinsawdd wedi arwain at lefelau dŵr isel yn y gwanwyn a thymheredd dŵr uwch, sydd wedyn wedi arwain at ordyfiant algâu a lefelau ocsigen is yn y dŵr.

Yn 2022, bu 1,889 o ollyngiadau i'r afon drwy ollyngfeydd carthion cyfun a barodd 14,079 o oriau, y chweched afon waethaf yng Nghymru a Lloegr o ran hyd y gollyngiadau carthion.

# 1. Y cefndir

Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am reoli dŵr. Y Strategaeth Ddŵr i Gymru (2015) yw polisi Llywodraeth Cymru ar gyfer rheoli, diogelu a gwella gwasanaethau ac ansawdd dŵr Cymru. Dyma'r weledigaeth:

> … sicrhau bod Cymru yn parhau i feddu ar amgylchedd dŵr ffyniannus sy'n cael ei reoli mewn modd cynaliadwy i gefnogi cymunedau iach, busnesau sy'n ffynnu a'r amgylchedd.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gyfrifol am reoli adnoddau dŵr, a monitro a gwella ansawdd dŵr – gan gynnwys dŵr croyw, dŵr morol, dŵr wyneb a dŵr tanddaearol yng Nghymru. At hynny, mae'n gweithredu a gorfodi rheoliadau, polisïau a thrwyddedau sy'n ymwneud ag ansawdd dŵr.

## 1.1. Asesu ansawdd dŵr afonydd

Rheoliadau'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr (Cymru a Lloegr) 2017 ("y Rheoliadau") yw'r prif fecanwaith ar gyfer asesu a rheoli'r amgylchedd dŵr. Mae'r Rheoliadau yn gosod dyletswydd statudol ar Weinidogion Cymru i atal dirywiad pob corff dŵr a sicrhau eu bod yn ennill statws da erbyn 2027.

Gweithredir y Rheoliadau fesul cam yn seiliedig ar fasnau afonydd – drwy Gynlluniau Rheoli Basnau Afonydd ("y Cynlluniau") – a ddatblygwyd gan Gyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer pob Ardal Basn Afon. Ymgynghorwyd ar y Cynlluniau ar gyfer y cylch presennol yn 2019, ac maent yn cwmpasu'r cyfnod 2021-2027. Cawsant eu cyhoeddi ym mis Gorffennaf 2022.

## 1.2. Ansawdd dŵr afon Teifi

Oherwydd ei nodweddion biolegol pwysig mae Afon Teifi a deg o'i llednentydd yn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ac yn Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig. Mae Cynlluniau Gorllewin Cymru yn rhoi crynodeb o ddalgylch Teifi, ac yn dweud bod materion â blaenoriaeth ar gyfer dŵr yn cynnwys y canlynol:

> … asideiddio, effaith mwyngloddio metel hanesyddol, llygredd gwledig gwasgaredig amaethyddiaeth a choedwigaeth, llygredd ffynhonnell benodol gollyngiadau carthion o'r gwaith trin dŵr gwastraff, asedau ac ardaloedd ysbeidiol o'r prif ardaloedd carthion, addasiadau ffisegol a rhywogaethau estron goresgynnol.

Mae blaenoriaethau ychwanegol yn cynnwys cymunedau sydd mewn perygl o lifogydd, galwadau tynnu dŵr oherwydd y defnydd cynyddol o ddŵr a phwysau newid yn yr hinsawdd. Yn ôl asesiad cydymffurfiaeth yn erbyn targedau ffosfforws Cyfoeth Naturiol Cymru yn 2021, mae yna doriadau yn Ardal Cadwraerth Arbennig Afon Teifi Isaf yn erbyn y targedau tynhau diwygiedig a osodwyd.

Mae Cynlluniau Gorllewin Cymru yn nodi Afon Teifi fel un o ddeg o ‘Ddalgylchoedd Cyfle’ sy’n “cynrychioli'r gyfres orau o gyfleoedd i gyflawni dull rheoli cynaliadwy ar gyfer canlyniadau dŵr a llesiant”, a bydd yn “cwmpasu holl swyddogaethau Cyfoeth Naturiol Cymru, er mwyn cefnogi partneriaid i ddarparu datrysiadau ar gyfer rheoli dalgylchoedd mewn modd integredig”.

## 1.3. Mesurau i wella ansawdd dŵr yn y Teifi

Mae nifer o brosiectau a arweinir gan Gyfoeth Naturiol Cymru wedi’u sefydlu i wella ansawdd dŵr yn Afon Teifi, gan gynnwys Prosiect afonydd ACA, sy'n anelu at mynd i’r afael â materion rheoli a rheoleiddio ansawdd dŵr yn afonydd Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Cymru. Fe'i defnyddir i nodi cyfleoedd a chyflwyno ymyriadau drwy Fwrdd Rheoli Maetholion Teifi.

Nod y prosiect Prosiect Pedair Afon LIFE yw gwella cadwraeth pedair afon mewn Ardal Cadwraeth Arbennig yng Nghymru, gan gynnwys Afon Teifi, trwy adsefydlu ac adfer eu prosesau naturiol, eu nodweddion a'u cynefinoedd ffisegol.

Mae prosiect dalgylch arddangos y Teifi yn archwilio “ffyrdd newydd a gwreiddiol o weithio, a cheisio atebion amgylcheddol arloesol”. Ei nod yw datblygu model y gellir ei ehangu a'i ailadrodd mewn dalgylchoedd afonydd eraill yng Nghymru yn y dyfodol. Yn fwyaf diweddar cynhaliodd y prosiect ddigwyddiad 'hacathon' i

“ddatrys rhai o’r heriau sy’n wynebu ansawdd dŵr a bioamrywiaeth yn nalgylch Afon Teifi”.

# 2. Ariannu Cyfoeth Naturiol Cymru

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cael cyllid craidd ar gyfer ei swyddogaethau sylfaenol, a chyllid grant ychwanegol ar gyfer prosiectau y tu hwnt i’r swyddogaethau hynny. Canfu adolygiad o swyddogaethau sylfaenol Cyfoeth Naturiol Cymru fod yna 'fwlch ariannu', a arweiniodd Llywodraeth Cymru at ddyrannu £18.2m pellach i Gyfoeth Naturiol Cymru yn 2023-24. Yn y Gyllideb derfynol ddiweddar ar gyfer 2024-25, dyraniad adnoddau Cyfoeth Naturiol Cymru yw £88.2m, cynnydd o £18.2m o'r gyllideb ddangosol.

Mae cyfrifon diweddaraf Cyfoeth Naturiol Cymru yn dangos mai cyfanswm ei incwm ar gyfer 2022-23 oedd £116m, gan gynnwys £22m o grantiau Llywodraeth Cymru tuag at ystod o ganlyniadau. Yn ogystal, darparodd Llywodraeth Cymru £118m o Gymorth Grant. Cyfanswm gwariant Cyfoeth Naturiol Cymru am y flwyddyn oedd £272m, £38m yn fwy na’i incwm ar gyfer 2022-23.

Mewn papur i Bwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith y Senedd, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn tynnu sylw at y pwysau y mae'n ei wynebu wrth reoli costau cynyddol. Mae'n dweud ei fod yn cynnal adolygiad trylwyr o'r holl weithgareddau i wneud gostyngiadau pellach sydd eu hangen yn y gyllideb.

# 3. Craffu ar waith Cyfoeth Naturiol Cymru

Fel Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn atebol i Weinidogion Cymru, ac yn destun gwaith craffu gan Bwyllgorau’r Senedd. Mae'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith yn cynnal gwaith craffu blynyddol ar Gyfoeth Naturiol Cymru.

# 4. Camau gweithredu gan Lywodraeth Cymru

Mewn ymateb i’r pwysau cynyddol ar amgylcheddau dyfrol Cymru, sefydlodd Llywodraeth Cymru y Tasglu Gwella Ansawdd Afonydd (“y tasglu”). Mae wedi edrych ar werthuso'r dull presennol o reoli a rheoleiddio gorlifoedd yng Nghymru a datblygu cynlluniau ar gyfer newid a gwella. Nododd bum maes y mae angen gweithredu ymhellach yn eu cylch, gan gyhoeddi cynllun gweithredu ar gyfer pob

ardal ym mis Gorffennaf 2022. Diweddarwyd y cynlluniau gweithredu i ddangos cynnydd yn erbyn y camau gweithredu ar 24 Hydref 2024.

Bu pedwar uwchgynhadedd ar lygredd afonydd, y cyntaf yn Sioe Frenhinol Cymru 2022, ac yn fwyaf diweddar ym mis Mawrth eleni, lle rhoddwyd cyflwyniad ar gynnydd prosiect Dalgylch Arddangos y Teifi. Cytunwyd ar wyth maes ymyrraeth yn yr uwchgynhadledd gyntaf, ac un ohonynt oedd sefydlu byrddau rheoli maetholion, gan gynnwys Bwrdd Rheoli Maetholion Teifi.

Mewn ymateb i'r ddeiseb hon, mae'r Gweinidog Newid Hinsawdd blaenorol, Julie James, yn rhoi rhagor o fanylion am brosiect 'Pedair Afon Life', gan ddweud:

> Ar Afon Teifi yn benodol bydd y prosiect yn ymweld â dros 150 o ffermwyr i roi cyngor ynghylch rheoli tir, gosod tua 25km o ffensys ar hyd yr afon a phlannu tua 12,500 o goed ar hyd yr afon. Mae cynlluniau hefyd i ailgyfeirio tua 3km o afon syth yn y dalgylch, i adfer prosesau naturiol a gwella cynefinoedd ar hyd yr adrannau hyn.

At hynny, mae'r Gweinidog yn rhoi rhagor o fanylion am brosiect Dalgylch Arddangos Teifi, gan ddweud ei fod "yn ymwneud â meddwl yn wahanol a defnyddio atebion arloesol i archwilio ffyrdd newydd o weithio". Mae'n dweud yr hyn a ganlyn o ran prosiectau Ardal ACA Afonydd, a sefydlwyd mewn ymateb i'r ffaith i asesiad cydymffurfio Cyfoeth Naturiol Cymru ganfod toriadau o lefelau ffosfforws yn Afon Teifi:

> … wedi nodi mai gollyngiadau o waith trin carthffosiaeth Dŵr Cymru a gorlifoedd storm cyfun yw prif achos y lefelau ffosfforws yn nalgylch Afon Teifi.

Fel rhan o Gynllun Gweithredu ymroddedig gan Lywodraeth Cymru, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cynnal adolygiad o drwyddedau gollwng er mwyn lleihau'r effaith o asedau Dŵr Cymru. At hynny, mae'r Gweinidog yn tynnu sylw at waith y tasglu, rôl proses adolygiad prisiau Ofwat, gwaith y mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn ei wneud gyda'r Awdurdod Glo i fynd i'r afael â gwaddol mwyngloddiau metel hanesyddol, a'r modd y mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gweithio i ddiogelu pysgodfeydd ar Afon Teifi. Mae'r Gweinidog hefyd yn tynnu sylw at y "llawer o weithgareddau eraill" y mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn eu cynnal yn nalgylch Teifi fel rhan o'u dyletswyddau a'u cyfrifoldebau cyffredinol, gan gynnwys "ymateb i ddigwyddiadau a gorfodi a thrwyddedu rhagweithiol, archwiliadau cydymffurfio / trwyddedau".

# 5. Camau gan Senedd Cymru

Ar ddechrau 2022, cynhaliodd Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith y Senedd ymchwiliad i ollyngiadau carthion, a'u heffaith ar ansawdd dŵr. Trafodir canfyddiadau'r Pwyllgor yn hyn mewn erthygl gan Ymchwil y Senedd. Ers hynny, mae wedi cynnal gwaith craffu ar berfformiad amgylcheddol Dŵr Cymru a gollyngiadau anghyfreithlon o garthion heb eu trin o nifer o'i waith trin dŵr gwastraff .

Mae'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith yn cynnal gwaith craffu blynyddol ar Gyfoeth Naturiol Cymru, ac yn cynnal gwaith craffu ar ddyraniadau cyllideb Cyfoeth Naturiol Cymru, wrth gynnal gwaith craffu ar y gyllideb ddrafft flynyddol gyda'r Gweinidog sy'n gyfrifol.

Bu Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig yn cynnal gwaith craffu ar y Rheoliadau Llygredd Amaethyddol yn 2021/2022. Mae'n parhau i graffu ar gynnydd o ran cyflawni'r rheoliadau yn rheolaidd, yn ystod sesiynau rheolaidd yn craffu ar waith Gweinidogol ym maes materion gwledig.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddaru o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.

**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Newid Hinsawdd**
**Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1398
Ein cyf/Our ref JJ/00119/24

Jack Sargeant AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

07 Mawrth 2024

Annwyl Jack,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 18 Ionawr.

Hoffwn i roi sicrwydd i'r Pwyllgor fy mod yn pryderu'n fawr iawn am effaith llygredd ar ansawdd ein hafonydd. Mae gwella ansawdd dŵr yn broblem gymhleth nad yw'n hawdd ei datrys.

Mae Afon Teifi yn enghraifft o hyn. Mae'r afon honno o dan nifer o bwysau, gan gynnwys llygredd o fwyngloddiau metel segur ar ben uchaf y dalgylch, llygredd o asedau dŵr gwastraff, a llygredd gwasgaredig o ddŵr ffo oddi ar y tir. Hefyd mae mannau tynnu dŵr yfed cyhoeddus o bwys strategol ar yr afon.

Er mwyn mynd i'r afael â llygredd ar Afon Teifi a chyrff dŵr eraill yng Nghymru, mae angen rheoli adnoddau naturiol mewn modd integredig er mwyn sicrhau'r manteision economaidd a chymdeithasol mwyaf posibl mewn ffordd deg, wrth amddiffyn pob ecosystemau a'r amgylchedd. Nid yw Llywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn gallu gwireddu'r uchelgeisiau hyn ar eu pennau eu hunain. Mae angen i bawb feddwl am sut mae eu gweithgareddau'n effeithio ar yr amgylchedd dŵr ehangach – mae angen dull 'Tîm Cymru'. Mae CNC yn rhan allweddol o Dîm Cymru, ac â'u cyllid presennol maent yn gwneud gwaith sylweddol ledled dalgylch Afon Teifi i wella ansawdd dŵr, lleihau llygredd, a chreu gwelliannau sylweddol, gweladwy a pharhaol i Afon Teifi a'i bywyd gwyllt.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae CNC yn arwain 'Prosiect Pedair Afon LIFE', prosiect adfer afonydd uchelgeisiol ar raddfa fawr, a sicrhaodd dros £9 miliwn o gyllid (y mae Llywodraeth Cymru wedi darparu £850k y flwyddyn ohono am bedair blynedd fel arian cyfatebol) i ganolbwyntio ar adfer nodweddion dŵr croyw mewn pedair Afon ACA yng Nghymru: Afon Teifi, Afonydd Cleddau, Afon Tywi ac Afon Wysg. Gan weithio gyda sefydliadau partner, ffermwyr, perchnogion tir, cymunedau lleol a chontractwyr, mae'r prosiect yn defnyddio atebion hirdymor sy'n seiliedig ar natur ar Afon Teifi a'r afonydd targed eraill i wella eu hansawdd ecolegol. Ar Afon Teifi yn benodol bydd y prosiect yn ymweld â dros 150 o ffermwyr i roi cyngor ynghylch rheoli tir, gosod tua 25km o ffensys ar hyd yr afon a phlannu tua 12,500 o goed ar hyd yr afon. Mae cynlluniau hefyd i ailgyfeirio tua 3km o afon syth yn y dalgylch, i adfer prosesau naturiol a gwella cynefinoedd ar hyd yr adrannau hyn. Mae'r prosiect yn mynd i'r afael â rhywogaethau afonol goresgynnol fel Jac y Neidiwr a Phidyn-y-Gog Americanaidd, gyda'r nod o gael gwared ar y rhywogaethau hyn mewn rhai is-ddalgylchoedd. Mae'r gwaith hwn yn cael ei gyflawni gan gontractwyr lleol yn ogystal â gwirfoddolwyr.

Yn ogystal â Phrosiect Pedair Afon LIFE, mae CNC yn defnyddio Afon Teifi ar gyfer prosiect 'dalgylch arddangos' peilot arloesol, gyda chymorth Llywodraeth Cymru. Mae prosiect Dalgylch Arddangos Teifi yn ymwneud â meddwl yn wahanol a defnyddio atebion arloesol i archwilio ffyrdd newydd o weithio, ac i chwilio am atebion amgylcheddol arloesol drwy gydweithio â sefydliadau cyhoeddus a phreifat, cymunedau a sefydliadau'r trydydd sector. Bydd yn adeiladu ar waith sydd eisoes yn cael ei wneud ac yn canolbwyntio ar sut y gall CNC ychwanegu gwerth a dangos ychwanegedd. Mae CNC yn adolygu gwaith monitro dŵr croyw, gan ystyried anghenion y dyfodol, dulliau newydd ac arloesi. Mae CNC hefyd yn manteisio ar ddiddordeb a brwdfrydedd aelodau'r cyhoedd a grwpiau cymunedol sy'n awyddus i fonitro afonydd, traethau a llynnoedd lleol.  Mae CNC yn gweithio i ddatblygu eu dull o ymdrin â Gwyddor Dinasyddion er mwyn galluogi defnyddio data gwerthfawr i hyrwyddo eu gwaith ymhellach.  Rwyf hefyd yn awyddus i ystyried defnyddio pwerau arbrofol Cyfoeth Naturiol Cymru lle bo hynny'n briodol. Mae CNC yn cydweithio'n weithredol ag 16 o sefydliadau eraill i ddatblygu a chytuno ar amcanion clir ar gyfer y prosiect ac i ddatblygu rhaglen waith gyda'i gilydd i'w chyflawni ar y cyd.  Gyda'i gilydd, maent wedi cyflwyno cais i Gronfa Arloesi Ofwat am £2 miliwn i gefnogi'r gwaith o gynnal ymyriadau yn y dalgylch. Ni ddylid diystyru'r her i CNC a'i randdeiliaid – gan y credir y gallai'r prosiect bara am hyd at bum mlynedd. Er bod y newid i'w weld yn araf, mae'r prosiect yn dod ar adeg hanfodol i'n hafonydd. Bydd y ffordd rydym yn gweithio gyda'n gilydd – fel rheoleiddwyr, Llywodraeth, perchnogion tir, busnesau a chymunedau – yn ganolog os ydym am gyflawni'r gwelliannau yn ein hafonydd yr ydym i gyd yn chwilio amdanynt.

Yn dilyn cyhoeddi Adroddiad CNC ar Gydymffurfedd ym mis Ionawr 2021, a ganfu fod Afon Teifi yn methu targedau ar gyfer ffosfforws, sefydlodd CNC brosiect Afonydd ACA i fynd i'r afael â rhai o'r problemau ansawdd dŵr ar draws Afonydd ACA yng Nghymru. Mae astudiaethau o ffynonellau a gomisiynwyd gan CNC i nodi ffynonellau llygredd ffosfforws wedi nodi mai gollyngiadau o waith trin carthffosiaeth Dŵr Cymru a gorlifoedd storm cyfun yw prif achos y lefelau ffosfforws yn nalgylch Afon Teifi. Mae CNC yn gweithio'n agos gyda dros 30 o fentrau a chynlluniau gwella DCWW yn y dalgylch, ac mae'n goruchwylio'r gwaith hwnnw. Fel rhan o Gynllun Gweithredu Llywodraeth Cymru i fynd i'r  afael â llygredd ffosfforws mewn dalgylchoedd afonydd ACA, ar hyn o bryd mae CNC yn cynnal adolygiad o drwyddedau gollwng i geisio lleihau effaith asedau DCWW a gwella cydymffurfedd.

Gan weithio gyda Thasglu Gwella Ansawdd Afonydd Cymru, mae CNC yn cyflawni eu hymrwymiadau yn y map ffordd ar gyfer gorlifoedd storm, gan gryfhau ein fframwaith rheoleiddio ar gyfer gorlifoedd storm i sicrhau bod cwmnïau dŵr a dŵr gwastraff yn rheoli ac yn gweithredu eu rhwydweithiau carthffosydd yn effeithiol. Yr uchelgais yw sicrhau system garthffosiaeth gadarn sy'n addasu i bwysau newid yn yr hinsawdd ac sy'n sicrhau nad yw gorlifoedd yn cael eu defnyddio oni bai bod angen. Yn sylfaenol i hyn mae casglu tystiolaeth newydd i ddangos effeithiau gorlifoedd, yn ogystal â chasglu gwybodaeth am lygryddion sy'n dod i'r amlwg. Mae'r tasglu hefyd yn edrych ar sut mae CNC yn cyfathrebu â rhanddeiliaid, gan adeiladu ar y diddordeb cynyddol ynghylch ansawdd dŵr a hamdden.

Yn dilyn blynyddoedd o gydweithio rhwng y cwmnïau dŵr a'r rheoleiddwyr, gan gynnwys CNC, cyflwynodd cwmnïau dŵr yng Nghymru eu cynlluniau busnes yn hydref 2023. Mae'r cynlluniau busnes hyn yn nodi rhaglen sylweddol o fuddsoddiadau y mae eu hangen yn fawr iawn ledled Cymru. Gwerth y buddsoddiad yw bron i £1.9 biliwn, sy'n gynnydd o 84% o'i gymharu â'r cyfnod blaenorol. Rwyf i a CNC yn disgwyl, pan fydd Ofwat wedi cymeradwyo'r cynlluniau busnes, y bydd y cynlluniau hynny'n dangos y byddant yn cefnogi gwelliannau amgylcheddol cynaliadwy er budd cenedlaethau heddiw a'r dyfodol, gan gyfrannu felly at y gwelliannau yn Afon Teifi ac Afonydd ACA eraill, Gorlifoedd Storm Cyfunol ac amrediad o raglenni dŵr eraill.

Mae CNC yn gweithio gyda'r Awdurdod Glo a Llywodraeth Cymru mewn modd gweithredol i fynd i'r afael ag effeithiau mwyngloddio metel yn y gorffennol yn nalgylch Teifi, i leihau gollyngiadau metel o ddau fwynglawdd metel – Abbey Consols (Blaenddwr Teifi) ac Esgair Mwyn (Llednant Meurig). Mae cyllid Llywodraeth Cymru gwerth tua £5 miliwn wedi cael ei ddyrannu i weithredu mesurau i leihau llygredd sinc a phlwm ar y safleoedd hyn. Mae Pwll *Nautilus* arloesol wedi'i gynllunio ar gyfer Esgair Mwyn a fydd yn cael gwared ar waddodion o'r dŵr sy'n cael eu gollwng, ac mae cyngor cyfreithiol wedi cael ei sicrhau ar y ffordd briodol o gael mynediad at safle Abbey Consols a lleihau'r risgiau a'r problemau o'r safle hwnnw.

Mae pysgodfeydd gwerthfawr Afon Teifi yn cael eu diogelu a'u gwella gan waith CNC a'i oruchwyliaeth yn y dalgylch. Mae'r Cynllun Adfer Cynefinoedd Pysgod, a ariennir gan y Prosiect Pysgodfeydd Cynaliadwy a dyfarniad grant Cronfa Cynefinoedd Pysgod Mewndirol (IFHR) i Afonydd Cymru ac Ymddiriedolaeth Afonydd Gorllewin Cymru, yn cynnwys gosod ffensys i atal da byw rhag cael mynediad i gyrsiau dŵr a hybu twf llystyfiant brodorol i sicrhau manteision i gynefinoedd a mannau cysgodi. Yn ogystal â'r gwaith adfer hwn, mae CNC wedi defnyddio eu pwerau gorfodi mewn ffordd gadarn ac effeithiol mewn perthynas â physgodfeydd ar Afon Teifi. Yn 2022, llwyddodd ymchwiliadau CNC i atal gang potsio wedi'i drefnu – a oedd wedi bod wrthi'n pysgota yn anghyfreithlon am eogiaid yn helaeth am 20 mlynedd ar Afon Teifi – gan erlyn y gang hwnnw a sicrhau euogfarnau troseddol yn eu herbyn. Gorchmynnodd y llys fod £61,791.50 yn cael ei atafaelu oddi wrth arweinydd y gang oherwydd yr enillion ariannol yr oedd wedi'i wneud drwy ei droseddau. Datgelodd gwaith dilynol weithgarwch troseddol a oedd wedi para am ddau ddegawd.

Mae CNC yn ymgymryd â llawer o weithgareddau eraill yn nalgylch Teifi fel rhan o'u dyletswyddau a'u cyfrifoldebau cyffredinol. Mae'r rhain yn cynnwys ymateb i ddigwyddiadau a gorfodi a thrwyddedu rhagweithiol, archwiliadau cydymffurfio / trwyddedau – nod CNC yw cynnal 800 o arolygiadau ar ffermydd risg uchel ledled Cymru mewn perthynas â Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021.

Mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod CNC yn parhau i gyflawni eu rhwymedigaethau a darparu gwerth am arian drwy gynnal trafodaethau rheolaidd a chadarn a chyfarfodydd i rannu'r wybodaeth ddiweddaraf.  Mae'n amlwg bod CNC yn chwarae eu rhan lawn yn y gwaith i atal llygredd a gwella ansawdd dŵr. Er gwaethaf y wasgfa ar gyllid cyhoeddus, maent yn llwyddo i ddefnyddio'r holl adnoddau sydd ar gael iddynt i atal a lleihau llygredd, cynnal rhagor o arolygiadau ac erlyn y rhai sy'n peri'r difrod mwyaf difrifol neu fwriadol.

Rwy'n hyderus y bydd y Senedd yn parhau i graffu ar waith CNC mewn modd gweithredol a chadarn.

Yn gywir



**Julie James AS/MS**
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change

**P-06-1398 To act to increase the effectiveness of Natural Resources Wales in halting pollution on the Teifi – Correspondence from the Petitioner to the Committee, 14 April 2024**

Petitions Committee
Senedd Cymru
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1SN

Dear Petitions Committee Members

Many thanks for providing us with an opportunity to comment on the document provided by Julie James in her former role as Minister for Climate Change and to provide further comments related to the state of Welsh Rivers and the resources available to NRW.

The letter from Julie James has clearly summarised the work that is currently being undertaken along the Afon Teifi and other SAC Rivers in Wales and we agree that a wide range of stakeholders need to work together to resolve the issues Welsh rivers are facing.

The petition was submitted by the Save the Teifi Community Group in July 2023 and we have been actively working with NRW, Dwr Cymru/Welsh Water, the Teifi Nutrient Management Board, Local Councils and West Wales River Trust to raise awareness of the issues and seek collaborative solutions. During this time we have been involved in numerous meetings, listened to Senedd debates and seen some progress. However the rate of progress is very slow and we remain concerned that the rate of change may end up being too slow to save endangered species – atlantic salmon, otter, water crowsfoot and sea lamprey are all in critical decline. We would like to draw the committee's attention to the following points.

1. The Teifi Demonstrator Catchment Project – We recognize that this is a positive development that it is producing collaborative working. In particular the farming community is starting to engage with the project – essential if agricultural pollution is to be tackled effectively. At present however the project has no funding since the bid to the Ofwat Innovation Fund was not successful. It thus looks like this innovative 5 year project will have no funds to move it forward for the first 12 months or more. This is disappointing. In other parts of the UK (e.g. Northern Ireland) SFS funds are being utilized to encourage changes that will support river quality, climate change resilience and natural ecosystems. Whilst we recognise that the proposed SFS changes are a contentious topic it highlights that trialing innovative policies in the Teifi catchment could provide a broader Team Wales approach rather than just rely on NRW using its experimental powers within the catchment. There needs to be an immediate ban on bare over-wintered fields (such as post-maize production) and an urgent display of innovative alternatives to slurry spreading and sewage treatment – eg dessication, biogas, fuel - creating solutions across the board that benefit more than just one sector

2. Dwr Cymru/Welsh Water Investment – It was good to see that Dwr Cymru/Welsh Water have been proactive in establishing plans to significantly reduce their

contribution to phosphate levels over the next 6 years. This is however only one source of this nutrient and whilst it might be the largest contributor for the Teifi (66%) that is not true of any of the other SAC Rivers. Nutrients from landuse form a significant element and we need policies and collaboration that will reduce these sources but at the same time support our rural economies. We also need to be mindful of the fact that Wales contains many other rivers and we should be trying to enhance the quality in all our water bodies and not just the SAC Rivers. It should also be noted that Dwr Cymru/Welsh Water's response to spills from Combined Sewage Outfalls is much slower despite the growing concern expressed by their customers. Whilst the issue can not be fixed in the short term the view that it will cost too much should not be accepted. Rather a long term plan needs to be agreed to produce a sewage system fit for the 21st Century rather than the 19th, with a focus on decoupling rainwater from the system to ease pressure and we would also urge them to install wetlands and SUDs to hold excess stormwater.

3. Funding for NRW – It is clear that funding for the Welsh Government and local councils is stretched and we are not surprised that it is having an impact on funding levels for NRW (a freeze on replacement posts, reduced sampling/monitoring, having to prioritise pollution incidents). We remained concerned that if there are insufficient funds then NRW as the national environmental regulator is unable to perform its key activities effectively. We would thus urge the Senedd to explore new ways to support NRW. At the recent Senedd debate it was noted that when NRW take a polluter to court the fines generated from a successful prosecution go to the Westminster Government rather than the Welsh Government. We would thus urge the Senedd to demand that such fines should be redistributed to NRW, not to just cover their costs involved in the case but to also help fund the activities of the regulator. We would also support the idea of the polluter being liable for habitat restoration and biodiversity enhancement.

4. NRW and Citizen Science – As Julie James notes NRW has recently published a policy document which outlines their approach to Citizen Science. Whilst we accept that the document provides groups with a clear mechanism to identify possible projects and gain approval from NRW it is a very bureaucratic process. The citizen science group have to be supported by a reputable organization (e.g. University, River Trust, Charitable Organisation), submit detailed paperwork outlining what they intend to do and then have to wait for approval or rejection. We believe that NRW have missed a significant opportunity here. They need to recognise that citizen science provides them with a real chance to access volunteers with a wide range of skills and thereby fill in numerous gaps in the existing monitoring framework. Rather than investing staff resources reviewing proposals it would be better to invite volunteers to provide details of their expertise and willingness to participate in a range of activities. NRW should be proactive and indicate what they would like the citizen scientists to do and to provide the appropriate training to complete the task (e.g. removing invasive species, analysing data, undertaking surveys). It is a broader Team Wales approach, where NRW organizes volunteers to support their work rather than making it difficult for the community to engage.

5. Team Wales Approach – The letter from Julie James and recent Senedd discussions have made reference to the Team Wales approach. This has resulted in close working between NRW and Dwr Cymru/Welsh Water. We recognise that positive collaborative working between key stakeholders is beneficial but it needs to be a delicate balance. NRW is the environmental regulator with DC/WW being a key company that it needs to regulate. The Senedd and Welsh voters need to be

confident that the relationship is appropriate and that decisive action will be taken where necessary. The water industry appears to have a complex array of regulators (NRW, Ofwat, DWI) and it is difficult to determine how effectively they work together. For example for the last two decades Ofwat appears to have placed emphasis on keeping customer bills low and allowing returns for investors rather than investment in updating capital assets which has had an impact on the environment and as a consequence working against the environmental regulator. The Senedd should be proactive to ensure the regulators are working for Wales and its future generations, not the water industry.

Best Wishes

Save the Teifi Community Group.

Eitem 2.3

# Dylai Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AAGIC) wneud Anhwylder Dysfforig Cyn Mislif (PMDD) yn fodiwl datblygiad proffesiynol parhaus gorfodol mewn addysg feddygol ôl-

**Cyfeirnod:** SR24/7850/5

Rhif y ddeiseb: P-06-1399

Teitl y ddeiseb: Dylai Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AAGIC) wneud Anhwylder Dysfforig Cyn Mislif (PMDD) yn fodiwl datblygiad proffesiynol parhaus gorfodol mewn addysg feddygol ôl-radd.

Geiriad y ddeiseb:

Mae Anhwylder Dysfforig Cyn Mislif yn anhwylder yr hwyliau sy'n seiliedig ar hormonau sy'n effeithio ar 5.5% o fenywod sy’n cael mislif, ac mae’n achosi symptomau meddyliol, emosiynol a chorfforol difrifol yn ystod y pythefnos cyn pob mislif, ac mae’r symptomau'n ddinistriol i bob agwedd ar fywyd dioddefwr. Nid oes iachâd ar gael, dim ond dulliau i reoli’r symptomau. Mae'r diffyg ymwybyddiaeth a’r addysg wael yn y maes meddygol yn golygu bod dioddefwyr yn aml yn cael gofal sy’n is na’r safon a ddisgwylir, ac maent yn aros 12 mlynedd ar gyfartaledd cyn cael diagnosis, a thrwy hynny driniaeth briodol a diogel.

Er mwyn galluogi diagnosis amserol a rheolaeth ddiogel i'r rhai sydd â PMDD, mae'n ofynnol i weithwyr meddygol proffesiynol fod â gwybodaeth ynghylch sut i adnabod patrwm cylchol y symptomau, sy’n rhwystr cyfredol ar draws y system gofal iechyd. Nid oes unrhyw addysgu gorfodol ar PMDD, ond gall y rhai sy'n dymuno arbenigo mewn anhwylderau mislif ddewis dilyn modiwl datblygiad proffesiynol parhaus. Mae Coleg Brenhinol y Seicolegwyr

(RCPsych) yn cynnig un modiwl cyfunol ar hormonau ac iechyd meddwl, ac mae Coleg Brenhinol y Gynaecolegwyr (RCOG) a Choleg Brenhinol y Meddygon Teulu (RCGP) yn cynnig addysg gyfyngedig ar syndrom cyn mislif yn unig.

Byddai sicrhau bod myfyrwyr ôl-radd â gwybodaeth am PMDD yn:

- Galluogi iddynt adnabod arwyddion rhybudd cynnar o'r cysylltiad rhwng iechyd meddwl a chylch y mislif.
- Caniatáu i fyfyrwyr ddarparu cymorth ac annog menywod/unigolion sydd wedi'u geni yn fenywaidd (AFAB) i olrhain eu cylchoedd wrth ddod ger eu bron ag argyfwng iechyd meddwl, gan nodi unrhyw batrwm cylchol o ran symptomau.
- Sicrhau diagnosis mwy amserol.
- Sicrhau bod gan bob myfyriwr a darparwr gofal iechyd wybodaeth gyfredol am y canllawiau triniaeth ar gyfer Anhwylder Dysfforig Cyn Mislif.

https://iapmd.org/about-pmdd

# 1. Y cefndir

Yn ôl y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE), anhwylder dysfforig cyn mislif (PMDD) yw:

> a severe form of PMS (premenstrual syndrome) defined in the Diagnostic and Statistical Manual of Mental Disorders (…) as occurring when a woman suffers from at least five out of 11 distinct psychological premenstrual symptoms, one of which must include mood.

Yn ôl y Gymdeithas Ryngwladol ar gyfer Anhwylderau Cyn Mislif (IAPMD), gall symptomau gynnwys iselder, gorbryder, hwyliau ansad, anniddigrwydd, ac yn aml synio am hunanladdiad, yn ogystal â symptomau corfforol fel tynerwch y fron a chwyddo.

Mae'r IAPMD yn amcangyfrif bod Anhwylder Dysfforig Cyn Mislif yn effeithio ar 5.5 y cant o fenywod ac unigolion a neilltuwyd yn fenyw ar adeg eu geni sydd o oedran atgenhedlu. Amcangyfrif Clymblaid Iechyd Merched Cymru yw bod tua 53,445 o fenywod yng Nghymru yn byw gydag Anhwylder Dysfforig Cyn Mislif.

Yn 2018, dangosodd arolwg byd-eang gan yr IAPMD fod cleifion yn y DU wedi aros 12 mlynedd ar gyfartaledd am ddiagnosis cywir a'u bod yn gweld 11 darparwr gofal iechyd yn ystod y broses.

Mae dioddefwyr Anhwylderau Dysfforig Cyn Mislif wedi galw o'r blaen am iddi fod yn orfodol i fyfyrwyr meddygol yng Nghymru ddysgu am y cyflwr.

# 2. Camau gweithredu gan Lywodraeth Cymru

Ym mis Gorffennaf 2022, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Ddatganiad Ansawdd ar gyfer Iechyd Menywod a Merched. Mae'n disgrifio'r hyn y disgwylir i fyrddau iechyd ei gyflawni i sicrhau gwasanaethau iechyd o ansawdd da i gefnogi menywod a merched. Mae Atodiad A yn rhestru cyflyrau iechyd penodol sy'n ymwneud â menywod a merched sydd yn aml yn cael eu hanwybyddu, megis problemau mislif. Mae'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ("y Gweinidog") wedi dweud mai'r datganiad ansawdd "yw'r cam cyntaf pwysig yn ein cynlluniau i drawsnewid y gofal mae menywod yn ei dderbyn yng Nghymru" ac y byddai cynllun iechyd menywod 10 mlynedd yn cael ei gyhoeddi yn hydref 2022.

Rhoddodd y Gweinidog i'r Grŵp Gweithredu ar Iechyd Menywod y dasg o ddatblygu Cynllun Iechyd Menywod i Gymru, a hynny mewn tri cham. Arweiniodd

y "cyfnod darganfod" (y cam cyntaf) at gyhoeddi Adroddiad Darganfod: Sylfeini Cynllun Iechyd Menywod ym mis Tachwedd 2022. Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r camau nesaf wrth gynhyrchu Cynllun Iechyd Menywod, gan gynnwys sefydlu Rhwydwaith Iechyd Menywod i fwrw ymlaen â'r gwaith hwn.

Ym mis Tachwedd 2023, gofynnodd Cadeirydd Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol y Senedd i'r Gweinidog am y wybodaeth ddiweddaraf am y Cynllun Iechyd Menywod. Atebodd y Gweinidog: "This is now an NHS health plan, so this is not going quite as quickly as I'd hoped". Ychwanegodd: "I do the quality statement, they do the delivery".

Ar 8 Mawrth 2024, darparodd y Gweinidog y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd ynghylch gwelliannau sy'n cael eu gwneud ym maes gofal iechyd menywod a merched yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi cyhoeddi i arweinydd clinigol gael ei benodi ar gyfer iechyd menywod a merched – y cyntaf erioed yng Nghymru – a fydd yn arwain y Rhwydwaith Clinigol Strategol Cenedlaethol ar gyfer Iechyd Menywod wrth ddatblygu Cynllun Iechyd Menywod Cymru.

Mewn ymateb i'r ddeiseb hon (11 Mawrth 2024), dywedodd y Gweinidog:

> Rydym yn cydnabod yr angen i godi ymwybyddiaeth o fodolaeth a symptomau PMDD a'r effaith ddinistriol y mae'n gallu ei chael ar y rhai sy'n dioddef ohono. Fodd bynnag, cyfrifoldeb y cyrff proffesiynol perthnasol yw gwneud penderfyniadau ynghylch cynnwys hyfforddiant i weithwyr gofal iechyd, gan gynnwys addysg feddygol ôl-radd, ac nid ydynt yn fater y gall Llywodraeth Cymru ymyrryd ynddo.

Gwnaeth hefyd gadarnhau bod Llywodraeth Cymru:

- Yn gweithio gyda Gweithrediaeth y GIG i edrych ar ehangu gwybodaeth a chanllawiau iechyd mislif ar-lein, gan gynnwys ynghylch Anhwylder Dysfforig Cyn Mislif.
- Wedi ariannu cydgysylltwyr iechyd a llesiant y pelfis ym mhob bwrdd iechyd i gyfeirio menywod at wasanaethau priodol.

Awdurdod iechyd arbennig yw Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) ac ef yw'r corff strategol ar gyfer gweithlu GIG Cymru. Mae AaGIC hefyd yn datblygu ac yn darparu Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) ac adnoddau ar-lein i gefnogi anghenion gweithlu GIG Cymru. Cafodd gweminar digwyddiad dysgu ar Syndrom Cyn Mislif / Anhwylder Dysfforig Cyn Mislif ei hysbysebu ar gyfer 24 Mawrth 2024.

# 3. Camau gweithredu Senedd Cymru

edrych ar ystod o wybodaeth o Gymru a'r DU ac yn ehangach wrth lunio'r strategaethau hyn. Mae'r holl fodelu yn awgrymu y bydd cynnydd mewn anghenion iechyd meddwl os nad ydym yn parhau i fuddsoddi mewn dulliau atal, ymyrraeth gynharach a gweithio'n seiliedig ar y system gyfan.

# 3. Camau a gymerwyd gan Senedd Cymru

Cynhaliodd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ymchwiliad i anghydraddoldebau iechyd meddwl a chyhoeddodd ei adroddiad, sef Cysylltu'r dotiau: mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd meddwl yng Nghymru, ym mis Rhagfyr 2022.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddaru o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.

**Lynne Neagle AS/MS**
**Y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant**
**Deputy Minister for Mental Health and Wellbeing**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref LN/00067/24
Jack Sargeant AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

19 Mawrth 2024

Annwyl Jack

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 9 Chwefror ynghylch Deiseb P-06-1405 *Rydym eisiau ac angen uned Iechyd Meddwl â gwelyau ar gyfer dynion yng Ngogledd Cymru.*

Nod Llywodraeth Cymru yw darparu gofal iechyd diogel a phriodol i bawb yng Nghymru, ond hefyd rydym yn cydnabod bod rhai grwpiau penodol mewn cymdeithas sy'n llai tebygol o ofyn am gymorth, a bod hyn yn cynnwys dynion. Rydym yn parhau i godi ymwybyddiaeth o'r gefnogaeth sydd ar gael yn rhwydd. Mae hyn yn cynnwys ein llinell gymorth CALL sy'n gallu cynnig cefnogaeth emosiynol gyfrinachol a chyfeirio pobl at gymorth lleol, a GIG 111 pwyso 2 am gymorth iechyd meddwl brys. Mae 41% o'r bobl sy'n galw 111 pwyso 2 yn wrywaidd, sy'n dangos bod y gwasanaeth yn llwyddo i ddarparu model o gefnogaeth y mae dynion yn fodlon ei ddefnyddio.

Mae dynion yn parhau i fod yn grŵp blaenoriaeth yn ein Strategaeth Atal Hunanladdiad a Hunan-niweidio a gyhoeddwyd at ddibenion ymgynghori, ochr yn ochr â'r Strategaeth Iechyd Meddwl a Llesiant Meddyliol newydd, ar 20 Chwefror. Mae'r Strategaeth Atal Hunanladdiad a Hunan-niweidio ddrafft yn tynnu sylw at y ffaith bod dynion dair gwaith yn fwy tebygol o farw drwy hunanladdiad na menywod, gyda'r grŵp dynion canol oed (40-49) â'r cyfraddau uchaf o hunanladdiad o'i gymharu ag unrhyw grŵp ers 2008.[1]

Bydd yr ymgynghoriad ar y strategaethau drafft yn para tan 11 Mehefin, a nod y strategaethau hyn yw newid sut yr ydym yn edrych ar iechyd meddwl, gan rymuso pobl i wella eu hiechyd meddwl a chael gwared ar y rhwystrau a'r stigma sy'n gysylltiedig â chael cymorth. Gan fod hanner y cyflyrau iechyd meddwl yn effeithio ar bobl erbyn iddynt gyrraedd 14 oed, a 75% erbyn iddynt gyrraedd 23 oed, mae'n bwysig cynnal ffocws cryf ar atal drwy sicrhau bod pawb yn gallu cael mynediad cyfartal at y pethau sydd eu hangen i

[1] Suicides in England and Wales Statistical bulletins - Office for National Statistics

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lynne.Neagle@llyw.cymru
Correspondence.Lynne.Neagle@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

fwynhau iechyd meddwl da, megis ymarfer corff, yr amgylchedd naturiol, a bod yn rhan o'r gymuned.

Hefyd mae ffocws penodol ar y ffactorau ehangach sy'n effeithio ar iechyd meddwl ac atal hunanladdiad a hunan-niwed – gan gynnwys tai, cyflogaeth a chyllid – gyda'r ddwy strategaeth yn cydnabod bod angen gwneud gwaith ar draws y Llywodraeth gyfan ac ar draws sectorau i wella iechyd meddwl a llesiant a lleihau nifer yr achosion o hunanladdiad a hunan-niwed yng Nghymru. Mae rhai grwpiau mewn mwy o berygl o ddioddef iechyd meddwl gwael nag eraill, a gall anghydraddoldebau fod yn rhan o'r hyn sy'n achosi iechyd meddwl gwael. Dyma'r rheswm pam y bydd y strategaethau yn hyrwyddo tegwch o ran mynediad, profiad a chanlyniadau i bawb.

Nod ein Strategaeth Atal Hunanladdiad a Hunan-niweidio yw sicrhau bod pobl yng Nghymru yn byw mewn cymunedau sy’n rhydd o’r ofn a’r stigma sy’n gysylltiedig â hunanladdiad a hunan-niwed, a'u bod yn cael eu grymuso a’u cefnogi i ofyn am gymorth neu i gynnig cymorth fel y bo angen.

Pan fydd angen cymorth ar bobl, mae'r strategaethau'n cydnabod bod anghenion pobl yn amrywio ac nad pawb fydd ag angen gwasanaethau iechyd meddwl clinigol neu arbenigol. Y bwriad yw adeiladu ar lwyddiant cymorth sy'n hawdd cael mynediad ato fel y gwasanaeth 111 pwyso 2 a therapi gwybyddol ymddygiadol ar-lein, ochr yn ochr â dulliau gweithredu ehangach sy'n parhau i wella'r cymorth a gynigir mewn ysgolion a gweithleoedd. Mae llawer o fentrau rhagorol eisoes ar waith ledled Cymru i gefnogi iechyd meddwl ymysg dynion. Trefnodd ein Tîm Atal Hunanladdiad a Hunan-niwed Cenedlaethol ddigwyddiadau undydd am ddim yn y Gogledd a'r De i ddynion sy'n aelodau o grwpiau neu’n arweinwyr grwpiau, neu ddynion sydd â diddordeb mewn sefydlu grwpiau. Roedd y rhain yn ddigwyddiadau a gynhaliwyd ar lawr gwlad ac a ddatblygwyd gan ddynion ar gyfer dynion i archwilio anghenion dynion, nodi’r rhwystrau, gwella cydweithredu a rhannu'r arferion gorau, ac, yn y pen draw, i lywio'r gwaith cynllunio yn y dyfodol ac elwa ar ganlyniadau ymdrechion ar y cyd.

Ein gweledigaeth ni yw sicrhau bod system gymorth gydgysylltiedig yn cael ei darparu ar draws y sector iechyd, y sector gofal cymdeithasol, y trydydd sector, ac yn ehangach, i alluogi pobl i gael gafael ar y gwasanaeth cywir, ar yr adeg gywir, yn y lle cywir. Rhaid sicrhau hefyd bod y gofal a chymorth a ddarperir yn dosturiol, ac yn canolbwyntio ar yr unigolyn ac ar adferiad, gyda phwyslais ar wella ansawdd, diogelwch, a mynediad. Mae’n hanfodol bod pob gofal a chymorth yn cael eu darparu gan weithlu sy'n teimlo ei fod yn cael y gefnogaeth briodol ac sydd â'r capasiti, y gallu, a'r hyder i ddiwallu anghenion pobl.

Hefyd, mae'r strategaethau’n cydnabod y pwysau ariannol digynsail yr ydym yn eu hwynebu, a'u nod yw darparu cyfeiriad i wasanaethau a phartneriaid er mwyn sicrhau bod adnoddau'n cael eu targedu ar sail gwerth, yn hytrach na chreu rhestr o ymrwymiadau cyllido newydd.

Byddai angen i unrhyw ystyriaeth mewn perthynas â sefydlu uned iechyd meddwl i ddynion yn y Gogledd gyd-fynd â'r gwaith presennol sydd eisoes ar y gweill i adolygu'r gwasanaethau a ddarperir ar hyn o bryd. Mae'r Strategaeth Iechyd Meddwl a Llesiant Meddyliol ddrafft wedi ei llywio gan y gwaith y mae Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru wedi ei wneud i ddatblygu capasiti iechyd meddwl arbenigol yn y dyfodol. Yn ystod y 18-24 mis diwethaf, rydym hefyd wedi edrych ar ystod o wybodaeth o Gymru a'r DU ac yn ehangach wrth lunio'r strategaethau hyn. Mae'r holl fodelu yn awgrymu y bydd cynnydd mewn anghenion iechyd meddwl os nad ydym yn parhau i fuddsoddi mewn dulliau atal, ymyrraeth gynharach a gweithio'n seiliedig ar y system gyfan.

Bydd yr ymgynghoriadau presennol yn helpu i lywio ein blaenoriaethau yn y dyfodol, ac rydym yn annog pobl i ymateb er mwyn iddynt gael llais yn y gwaith o lunio'r blaenoriaethau hyn. Rydym wedi cynnwys y dolenni at yr ymgynghoriadau isod er mwyn ichi allu cyfeirio atynt yn rhwydd:

Strategaeth ddrafft atal hunanladdiad a hunan-niweidio | LLYW.CYMRU

Strategaeth ddrafft iechyd meddwl a llesiant meddyliol | LLYW.CYMRU

Rwy'n gobeithio bod yr wybodaeth hon o gymorth.

Yn gywir



**Lynne Neagle AS/MS**
Y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant
Deputy Minister for Mental Health and Wellbeing

**P-06-1405 We want and need a Mental Health unit for men in North Wales with beds – Correspondence from the petitioner to Committee, 16.04.24**

Thank you for your invitation to put my case forward.
Firstly you say you have a strategy in place for Men's Mental Health that is untrue the waiting list to receive any sort of help is ridiculous so much so that the rise in Male suicides is heartbreaking due to this major failure in your system.
Secondly the next stage is when they have actually attempted suicide. The one case I have focused on is [redacted] he tried & tried to get some form of help to help his mental state to no avail so out of desperation he attempted suicide thank god on this occasion he failed Sadly not the next one. He was desperate for help his [redacted] Hospital to try & get him some help he sat with him in the waiting room for 9 hrs to be then called in to a room to be told there was no Pyschiatric Doctors available & could he come back tomorrow. This he did in a coffin he took his own life on returning home. I personally am disgusted by his treatment that day & someone should be made accountable.
I had a meeting with his family & Hannah Blythin asking for help in changing the way mental health is dealt with in a hospital environment. Firstly there should be a separate waiting room for mental health patients as the state of mind they are already in they do not need to see what is going on in the Chaotic surrounding of A&E.
There should also be a Phyciatric team available 24/7 in the A&E dept.
Ideally I would like a residential mental Health unit in Flintshire as Wrexham is the closest one & there are never any available beds.
There has been 2 more suicides locally since [redacted] so something has to be done now.
Thank you
Lynda Leigh

Eitem 2.6

Senedd Cymru | Welsh Parliament
**Ymchwil y Senedd | Senedd Research**

# Deisebau ynghylch y terfyn cyflymder 20mya

Y Pwyllgor Deisebau | 22 Ebrill 2024
Petitions Committee | 22 April 2024

**Cyfeirnod:** SR24/8142-3

Mae'r papur briffio hwn wedi'i baratoi i gefnogi gwaith y Pwyllgor wrth drafod dwy ddeiseb yn ymwneud â'r terfyn cyflymder diofyn o 20mya – un yn cefnogi'r polisi a'r llall yn galw am ei ddiddymu.

Deiseb 1

**Rhif y ddeiseb:** P-06-1407

**Teitl y ddeiseb:** Rydym am i Lywodraeth Cymru ddiddymu'r gyfraith drychinebus ynghylch y terfyn cyflymder o 20mya

**Geiriad y ddeiseb:** Bydd y gyfraith newydd ynghylch y terfyn cyflymder o 20mya yn dod i rym ar 17 Medi, a chyda hynny y gwelir diwedd ar gyfnod sosialaeth mewn grym yng Nghymru.

Mae Llywodraeth Cymru yn honni bod ganddi dystiolaeth sy'n ategu'r ddadl bod gostwng y terfyn cyflymder i 20mya YM MHOB MAN yn achub bywydau! Ac eto, rydym yn gweld taflenni sydd ond yn honni y bydd hyn yn digwydd, ynghyd â sylwadau gan feddygon sy'n gweld pobl sy'n dod i adrannau damweiniau ac achosion brys o ganlyniad i wrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd. NID yw hyn yn dystiolaeth. Daw'r unig wir dystiolaeth o Belfast, ac mae'r dystiolaeth honno'n datgan NAD OES DIM GWAHANIAETH o ran gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd!

Yn wir, gwnaeth un o'r pentrefi yn Sir Fynwy lle cafodd y drefn newydd ei threialu roi'r gorau iddi gan ei bod yn troi'r ffyrdd yn draed moch llwyr! Mae Mark Drakeford wedi honni bod y drefn newydd wedi bod yn llwyddiant yn Saint-y-brid, ond bob tro dwi'n mynd yno, nid oes NEB yn gyrru ar gyflymder o 20mya.

Nid yw Llywodraeth Cymru wedi cynhyrchu UNRHYW dystiolaeth argyhoeddiadol i gefnogi'r honiadau ynghylch diogelwch. Adran newid hinsawdd Llywodraeth Cymru sy'n hyrwyddo'r gyfraith newydd hon, NID iechyd a diogelwch.

NID YDYCH WEDI GWRANDO ARNOM.

Rhoddwyd Llywodraeth Cymru yn ei lle GAN BOBL CYMRU; ni yw eich pennaeth! Rydym yn mynnu bod y syniad hurt hwn yn cael ei atal.

Deiseb 2

**Rhif y ddeiseb:** P-06-1412

**Teitl y ddeiseb:** Rydym am i Lywodraeth Cymru gadw'r gyfraith 20mya ardderchog

**Geiriad y ddeiseb:** Rwy'n cytuno â'r terfyn cyflymder 20mya diofyn newydd mewn trefi a dinasoedd ar draws Cymru. Bydd yn gwneud ein strydoedd yn llawer mwy diogel i gerddwyr a beicwyr.

# 1. Y cefndir

Yn 2019, sefydlodd Llywodraeth Cymru grŵp gorchwyl a gorffen i ystyried a ddylid cyflwyno terfyn cyflymder diofyn o 20mya mewn ardaloedd preswyl. Ym mis Gorffennaf 2020, derbyniodd Llywodraeth Cymru argymhellion y grŵp, gan gynnwys y dylid lleihau'r terfyn cyflymder diofyn ar ffyrdd cyfyngedig o 30mya i 20mya.

Yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus a chynllun peilot mewn wyth cymuned, gosododd Llywodraeth Cymru y Gorchymyn Ffyrdd Cyfyngedig (Terfyn Cyflymder

20 mya) (Cymru) ym mis Mehefin 2022. Cafodd y Gorchymyn drafft ei basio gan y Senedd ym mis Gorffennaf 2022 a daeth i rym ym mis Medi 2023.

Mae'r polisi wedi cael llawer o sylw yn y cyfryngau ac mae'r ddeiseb sy'n galw am 'ddiddymu'r' ddeddfwriaeth wedi casglu dros 469,000 o lofnodion – y nifer uchaf erioed o lofnodion ar gyfer deiseb i'r Senedd.

Mae Ymchwil y Senedd wedi cyhoeddi nifer o erthyglau yn y gorffennol ynghylch:

- y polisi a'r ymateb iddo yn y cyfnod cyn ei gyflwyno'n genedlaethol;
- y broses o weithredu'r polisi ac effeithiolrwydd terfynau cyflymder 20mya; a
- sut y bydd y polisi yn cael ei orfodi a'i fonitro

# Effaith terfynau cyflymder 20mya mewn mannau eraill

Yn hanesyddol, mae'r dystiolaeth ar effeithiolrwydd terfynau cyflymder o 20mya wedi bod yn gymysg. Canfu adroddiad ar effeithiolrwydd terfynau cyflymder 20mya gan Lywodraeth y DU yn 2018 nad oedd digon o dystiolaeth bod terfynau 20mya mewn ardaloedd preswyl wedi arwain at newid sylweddol mewn gwrthdrawiadau a damweiniau.

Ar y llaw arall, canfu adolygiad o dystiolaeth a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2018 fod y dystiolaeth " yn amrywio rhwng cymedrol a chryf" bod terfyn cyflymder o 20mya yn lleihau anafiadau. Roedd yr adolygiad hefyd yn ystyried tystiolaeth ar ffactorau eraill, gan gynnwys teithio llesol a llygredd aer.

Mae un o'r heriau wrth asesu'r effaith yn deillio o'r ffaith bod dulliau gwahanol o weithredu'r terfyn cyflymder 20mya. Mae'r ardaloedd â therfyn cyflymder yn amrywio o ran maint, ac mae gwahaniaeth rhwng terfynau 20mya hunanorfodol (heb fesurau gostegu traffig), a pharthau 20mya gyda mesurau gostegu traffig.

Mae enghraifft Belfast, y cyfeiriwyd ati gan y deisebydd sy'n galw am ddiddymu'r ddeddfwriaeth, yn dangos y pwynt hwn.

Yn Belfast, cafodd terfyn cyflymder 20mya ei gyflwyno ar 76 o strydoedd yng nghanol y ddinas yn 2016. Canfu adolygiad dilynol o'r cynllun, a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2022, nad oes fawr ddim effaith o ran lleihau gwrthdrawiadau

traffig, anafiadau a chyflymder ar y ffyrdd tra bod terfyn cyflymder o 20mya ar waith yng nghanol dinas.

Fodd bynnag, yn hytrach na phenderfynu bod terfynau o 20mya yn aneffeithiol, daeth yr adolygiad i'r casgliad a ganlyn:

> The intervention was implemented at the city centre scale (only 76 streets) in comparison to the recent city-wide intervention in Edinburgh which showed significant reductions in road traffic speed, collisions and casualties. Large scale implementation of 20 mph speed limit interventions may be an important factor for effectiveness (scale).

Daeth gwerthusiad 2021 o gynllun ledled dinas Caeredin i'r casgliad ei fod yn gysylltiedig â gostyngiadau ystyrlon mewn cyflymder traffig. Yn ôl adolygiad tair blynedd ar ôl gweithredu, gwelwyd gostyngiad o 30 y cant yn nifer y gwrthdrawiadau a gostyngiad o 31 y cant yn nifer yr anafiadau.

Mae Transport for London wedi canfod canlyniadau tebyg ar gyfer ei gynllun ardal eang, gyda gwrthdrawiadau yn gostwng 25 y cant dros ddwy flynedd hyd at fis Mehefin 2022, a'r rhai sy'n arwain at farwolaeth neu anaf difrifol i lawr 24 y cant.

# Monitro ac adolygu yng Nghymru

## Yr effeithiau yn yr ardaloedd peilot

Fel y nodwyd, cynhaliwyd cynlluniau peilot mewn wyth cymuned ledled Cymru i dreialu terfyn diofyn o 20mya yn y cyfnod cyn cyflwyno'r cynllun yn genedlaethol ym mis Medi 2023.

Cyhoeddwyd yr adroddiad monitro cyntaf ar yr effeithiau yn yr ardaloedd peilot ym mis Mawrth 2023, a chyhoeddwyd adroddiad monitro terfynol (ar gyfer yr ardaloedd peilot) ym mis Chwefror 2024. Dyma a ddangosodd y data hyd at fis Mai 2023:

- newidiadau "mawr cadarnhaol" mewn perthynas â Dangosyddion Perfformiad Allweddol ynghylch lleihau cyflymder ac agweddau at deithio llesol;
- newid "bach cadarnhaol" o ran ymddygiad cerbydau/cerddwyr; a

- "dim newid amlwg" o ran ansawdd aer lleol a newidiadau "bach negyddol" o ran amser teithio cerbydau, gan gynnwys gostyngiad cyffredinol mewn prydlondeb ar gyfer gwasanaethau bysiau oriau brig.

## Monitro'r broses o gyflwyno'r terfyn newydd yn genedlaethol

Ym mis Medi 2023, cyhoeddodd Trafnidiaeth Cymru ddogfen fframwaith monitro ar gyfer cyflwyno'r terfyn cyflymder newydd yn genedlaethol. Mae'r ddogfen yn nodi'r amcanion polisi a'r dangosyddion sydd i'w defnyddio. Caiff data eu casglu am hyd at bum mlynedd ar ôl cyflwyno'r terfyn cyflymder newydd.

O ran amserlenni adrodd, mae'n dweud yn y fframwaith y bydd Trafnidiaeth Cymru yn cyhoeddi adroddiad interim ym mis Mehefin 2024 yn seiliedig ar ddata a gasglwyd yn ystod y 6 mis cyntaf ar ôl cyflwyno'r terfyn yn genedlaethol. Disgwylir i adroddiad pellach ar y flwyddyn lawn gyntaf o weithredu gael ei gyhoeddi ym mis Rhagfyr 2024. Bydd adroddiadau ffurfiol yn cael eu cynnal yn flynyddol ar ôl hynny.

### Data monitro cyflymder cynnar

Ym mis Chwefror 2024, cyhoeddodd Trafnidiaeth Cymru ddata rhagarweiniol ar newidiadau i'r cyflymder cyfartalog ar ôl i'r terfyn newydd gael ei gyflwyno'n genedlaethol. Casglwyd y data ar brif ffyrdd trwodd mewn 43 safle mewn naw anheddiad.

Mae'r data'n dangos i'r cyflymderau cyfartalog ostwng 4mya ar gyfartaledd ar y ffyrdd hyn – o 28.9mya i 24.8mya.

## Adolygu'r canllawiau ar eithriadau

Er bod y terfyn diofyn o 20mya bellach ar waith ar ffyrdd cyfyngedig, gall awdurdodau priffyrdd (awdurdodau lleol ar gyfer ffyrdd lleol a Gweinidogion Cymru ar gyfer cefnffyrdd/traffyrdd) ddefnyddio Gorchmynion Rheoleiddio Traffig i newid y terfyn diofyn lle bo'n briodol.

Ym mis Tachwedd 2022, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau i awdurdodau priffyrdd ar y broses o bennu eithriadau. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru wedi awgrymu bod awdurdodau lleol ledled Cymru wedi dehongli ei chanllawiau ar eithriadau yn wahanol. Felly, mae wedi sefydlu tîm adolygu i ystyried sut y mae'r canllawiau wedi cael eu cymhwyso.

Cyhoeddodd y tîm adolygu ei adroddiad cychwynnol ym mis Chwefror 2024 a disgwylir iddo gyflwyno ei adroddiad terfynol a'r canllawiau drafft wedi'u diweddaru i Lywodraeth Cymru erbyn haf 2024.

# 2. Camau gweithredu gan Lywodraeth Cymru

Cafwyd ymateb i'r ddeiseb sy'n gwrthwynebu'r polisi (llythyr at y Cadeirydd dyddiedig 18 Mawrth). Fodd bynnag, ni chafwyd unrhyw ymateb i'r ddeiseb sy'n cefnogi'r polisi mewn da bryd i'w drafod yn y briff hwn.

Yn ei lythyr dyddiedig 18 Mawrth, mae'r cyn-Ddirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, Lee Waters AS yn cyfeirio at yr astudiaeth o'r hyn a wnaed yn Belfast, sy'n dystiolaeth ym marn y deisebydd nad yw terfynau 20mya yn cael fawr ddim effaith ar wrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd. Dywed y cyn-Ddirprwy Weinidog:

> Nid yw astudiaeth Belfast y cyfeirir ati yn y ddeiseb yn gymhariaeth debyg. Mae'r dull Cymreig wedi bod yn hollol wahanol i'r prosiect graddfa fach yn Belfast… [mae astudiaeth Belfast] wedi atgyfnerthu ein dull, fod angen i'r newidiadau ddigwydd ar raddfa a bod yn rhan o newid diwylliannol mwy i'r ffordd yr ydym yn teithio a gweld ein cymunedau lleol, er mwyn elwa ar fanteision go iawn o gyflymder 20mya.

Mae'r llythyr hefyd yn tynnu sylw at y data monitro cyflymder cynnar a gofnodwyd gan Trafnidiaeth Cymru (y cyfeiriwyd atynt uchod yn y papur briffio hwn) a'r adolygiad parhaus o'r canllawiau ar eithriadau.

# 3. Camau a gymerwyd gan Senedd Cymru

Ym mis Gorffennaf 2020, roedd dadl yn y Senedd ynghylch cyflwyno terfynau cyflymder diofyn 20mya gyda 45 o'r 53 o Aelodau yn pleidleisio o blaid y cynnig.

Fel y nodwyd, gosododd Llywodraeth Cymru y Gorchymyn Ffyrdd Cyfyngedig (Terfyn Cyflymder 20 mya) (Cymru) ym mis Mehefin 2022. Pasiwyd y Gorchymyn drafft gan y Senedd ym mis Gorffennaf 2022. Mae wedi cael ei drafod yn y Senedd ar sawl achlysur.

Ym mis Hydref 2023, bu'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith yn craffu ar waith y Dirprwy Weinidog ar y polisi.

Mae'r Pwyllgor wedi trafod nifer o ddeisebau sy'n ymwneud â'r polisi yn y gorffennol, gan gynnwys:

- Deiseb yn galw ar Lywodraeth Cymru i roi'r gorau i gyflwyno'r terfyn 20mya (a drafodwyd ym mis Ebrill 2022). Bryd hynny, gwnaeth y Pwyllgor gytuno i gau'r ddeiseb oherwydd gallu awdurdodau lleol i newid y terfyn ar ffyrdd lle na fyddai 20mya yn briodol.
- Deiseb yn galw ar Lywodraeth Cymru i gynnal arolwg cyhoeddus ar leihau'r terfyn cyflymder (a drafodwyd ym mis Hydref 2022). Caewyd y ddeiseb hon hefyd.
- Deiseb yn galw am arolwg o'r trigolion sy'n byw yn yr ardaloedd peilot (a drafodwyd ym mis Mawrth 2024). Unwaith eto, caewyd y ddeiseb hon yn sgil y gwaith monitro a nodwyd eisoes a oedd yn cael ei wneud drwy Trafnidiaeth Cymru.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddaru o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.

**Lee Waters AS/MS**
**Y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd**
**Deputy Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1407
Ein cyf/Our ref LW/00278/24

Jack Sargeant AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau

18 Mawrth 2024

Annwyl Jack

Diolch am eich llythyr dyddiedig 9 Chwefror ynghylch Deiseb P-06-1407 Rydym am i Lywodraeth Cymru ddiddymu'r gyfraith drychinebus ynghylch y terfyn cyflymder o 20mya.

Dyma'r newid mwyaf mewn diogelwch ar y ffyrdd yng Nghymru ers degawdau ac rwy'n cydnabod y teimladau cryfion sydd yn erbyn y newid. Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth o bob cwr o'r byd yn glir iawn - bydd gostwng cyflymderau yn lleihau gwrthdrawiadau, yn achub bywydau ac yn lleihau anafiadau.

Nododd Grŵp Tasglu 20mya Cymru y canlyniadau a ddisgwylir o newid y terfyn cyflymder diofyn ar gyfer ffyrdd cyfyngedig yng Nghymru i 20mya; a'r camau ymarferol sydd eu hangen i weithredu'r newid hwn yn y gyfraith. Canfuwyd trwch o dystiolaeth bod cyflymderau is yn arwain at lai o wrthdrawiadau a llai o anafiadau difrifol; a chanfuwyd tystiolaeth gyson bod nifer yr anafiadau yn cael eu lleihau pan gyflwynir terfynau cyflymder 20mya.

Cyfeirir yn Adroddiad y Grŵp Tasglu at adolygiad o'r dystiolaeth ar lai o anafiadau o ganlyniad i 20mya, a gynhaliwyd gan Dr Adrian Davis ar ran Llywodraeth Cymru yn 2018. Mae'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r ddeddfwriaeth 20mya yn rhoi rhagor o wybodaeth am y dystiolaeth sy'n sail i'r newid.

Rydym hefyd wedi darparu tudalen cwestiynau cyffredin helaeth ar ein gwefan sy'n cynnwys dolenni i'r dystiolaeth ac yn cwmpasu'r rhan fwyaf o'r pryderon a godwyd: Cyflwyno terfynau cyflymder 20mya: cwestiynau cyffredin | GOV. CYMRU. Mae rhagor o wybodaeth i'w chael yma: Terfynau cyflymder 20mya | Is-bwnc | GOV. CYMRU.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lee.Waters@llyw.cymru
Correspondence.Lee.Waters@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Nid yw astudiaeth Belfast y cyfeirir ati yn y ddeiseb yn gymhariaeth debyg. Mae'r dull Cymreig wedi bod yn hollol wahanol i'r prosiect graddfa fach yn Belfast. Nodir yn yr adroddiad ei hun y gweithredwyd yr ymyrraeth ar raddfa canol y ddinas (76 stryd yn unig) o'i gymharu â'r ymyrraeth ddiweddar ledled y ddinas yng Nghaeredin a ddangosodd ostyngiadau sylweddol yng nghyflymder traffig ffyrdd, gwrthdrawiadau ac anafiadau. Mae wedi atgyfnerthu ein dull, fod angen i'r newidiadau ddigwydd ar raddfa a bod yn rhan o newid diwylliannol mwy i'r ffordd yr ydym yn teithio a gweld ein cymunedau lleol, er mwyn elwa ar fanteision go iawn o gyflymder 20mya.

Yr wythnos diwethaf cyhoeddais ddatganiad ysgrifenedig sy'n nodi'r data cyflymder cynnar sydd wedi'i gofnodi ac mae'r canlyniadau'n galonogol iawn. Roedd y data a gasglwyd gan Trafnidiaeth Cymru yn monitro cyflymder miliynau o gerbydau mewn naw cymuned wahanol ledled Cymru cyn ac ar ôl i'r terfyn o 20mya gael ei roi ar waith. Mae'n dangos fod y cyflymder cyfartalog ar brif ffyrdd wedi gostwng ar gyfartaledd o 4mya - o 28.9mya i 24.8mya – ac mae hynny'n dystiolaeth glir bod cyflymderau'n symud i'r cyfeiriad cywir. Mae'r duedd ar i lawr hon mewn cyflymderau hefyd yn cael ei chefnogi gan y data cam un yn yr adroddiad monitro terfynol o'r ardaloedd lle cafodd y terfyn ei gyflwyno gyntaf.

O'r cychwyn cyntaf, rydym wedi dweud na fyddem yn llwyddo i gael y terfyn cyflymder ar bob un ffordd gyfyngedig yng Nghymru yn gywir y tro cyntaf. Rydym wedi penodi tîm bach o arbenigwyr i weithio gydag awdurdodau lleol i adolygu sut mae'r canllawiau ar wneud eithriadau wedi'u rhoi ar waith ac i awgrymu ffyrdd y gallem helpu awdurdodau priffyrdd i wneud newidiadau. Bydd yr adolygiad yn archwilio sut y caiff y canllawiau a roddir i awdurdodau priffyrdd eu cymhwyso wrth osod eithriadau i'r terfyn 20mya diofyn Adolygiad o eithriadau terfyn cyflymder diofyn o 20mya: cylch gorchwyl.

Mae'r grŵp wedi cyhoeddi ei adroddiad interim a bydd nawr yn casglu ystod eang o safbwyntiau ar ganllawiau ar eithriadau gan Awdurdodau Priffyrdd, grwpiau rhanddeiliaid a chyrff cynrychioliadol. Bydd yr adroddiad terfynol a'r canllawiau drafft wedi'u diweddaru yn cael eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn toriad yr haf 2024.

Gobeithio bod hwn yn ymateb defnyddiol. Mae croeso ichi gysylltu â ni os oes gennych unrhyw ymholiadau pellach.

Yn gywir



**Lee Waters AS/MS**
Y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd
Deputy Minister for Climate Change

**P-06-1407 We want the Welsh Government to rescind and remove the disastrous 20mph law – Correspondence from the Petitioner to the Committee, 08 April 2024**

Hello,

Thank you for your email. However, I am unable to agree with any of the point Mr Waters had made. He cannot call it like for like as it will never be that. Having a trial in city centres or in a built up city is ALSO not the same as in an entire country. Wales is nothing like Ireland/Scotland. However, the Belfast study did still come out saying that there was little to no impact on this:
https://jech.bmj.com/content/77/1/17

If Mr Waters would like to have a better comparison, then maybe he should investigate the Spanish implementation, they claimed there was a reduction in RTC's by 24% and up but failed to make clear that this was right in the middle of their pandemic lockdown which saw some of the most curtailing restrictions in Europe. In 2022 when road journeys went back up, they saw a 4% increase in fatalities.

This does not support Welsh Labour's ideology on this. You claim that people are getting used to it but stats prove otherwise.

- Feb 2024 saw an increase of 450 going faster than the previous month.
- Your own assumption that people would have gotten used to it by now is not accurate. You MUST NOT mistake compliance for acceptance. We will never get used to it.
- Your stats come from a small number of camera checks and does not reflect a true picture of Wales as a whole. You say that its dropped to 24.8mph but you haven't said in what 9 communities. I would like that information along with the unredacted raw evidence to support this.

Wales has not gotten used to it and has not slowed down or 'have been educated' to change our thinking. Lets not forget that the Welsh Government works for us and not the other way around. We will not be dictated to by you. No one asked for this and you carried on without a care for the people of Wales. Your own polls and surveys came back against this blanket change and before you say its not a blanket change, please check the definition of default. If you change the default speed limit then you are introducing a BLANKET change. Mr Waters also used this term in his own reporting.

I cannot trust a Government that would get an employee of a charity that has received millions in funding to come out and say that 20mph works but didn't make that clear from the outset and had to admit it afterwards, so how can I trust the so called figures you are providing when you have not made public the documentation that support it?

My final remarks on this are:

Welsh Labour must not simply pay this lip service. This petition has almost half a million signatures. That is 24 thousand more than they had votes in the last Senedd election. The people of Wales have spoken and they do not want this. You do not

answer to lobby groups or charities that nag you to implement things, you answer you us and you may not like the answer we give you at the next Senedd election.

Thank you.

Senedd Cymru | Welsh Parliament
**Ymchwil y Senedd | Senedd Research**

# P-06-1418: Deddfwriaeth i ddiogelu meysydd chwaraeon rhag baw cŵn

Y Pwyllgor Deisebau | 22 Ebril 2024
Petitions Committee | 22 April 2024

Cyfeirnod: SR24/8458-10

Rhif y ddeiseb: P-06-1418

Teitl y ddeiseb: Dylid cyflwyno deddfwriaeth newydd i ddiogelu meysydd chwaraeon rhag baw cŵn

Geiriad y ddeiseb:

Mae baw cŵn ar gaeau chwaraeon yn peri risg ddifrifol i iechyd chwaraewyr o bob oed. Cafwyd bod deddfwriaeth gyfredol, megis Gorchmynion Diogelu Mannau Cyhoeddus, yn annigonol ar gyfer atal y broblem hon. O'r herwydd, mae gwirfoddolwyr o glybiau chwaraeon yn gorfod chwilio caeau chwarae am faw cŵn a'i glirio bob tro mae'r caeau'n cael eu defnyddio ar gyfer hyfforddiant neu gemau.

Mae angen deddfwriaeth newydd, gan fod y ddeddfwriaeth bresennol yn ddiwerth oherwydd diffyg gorfodi gan awdurdodau lleol.

Mae'r erthygl newyddion a ganlyn yn amlygu'r anafiadau difrifol mae baw cŵn ar gaeau chwaraeon yn gallu eu hachosi:

https://nation.cymru/news/ms-urges-welsh-govt-to-ban-dogs-from-sports-fields/

Mae angen deddfwriaeth newydd i gadw chwaraewyr yn ddiogel, gan fod y gyfraith bresennol wedi bod yn aneffeithiol.

Lle mae cyfleusterau hamdden cyffredinol a chwaraeon yn cael eu cynnig ar yr un meysydd hamdden, dylai awdurdodau lleol gael eu cynghori i roi



www.senedd.cymru

mesurau cryf ar waith i liniaru'r risg y bydd chwaraewyr yn dod i gysylltiad â baw cŵn. Gallai'r mesurau hyn gynnwys lefelau uwch o orfodi, ffensio caeau chwaraeon, peidio â chaniatáu i gŵn gael eu cerdded oddi ar dennyn ac ati.

Hefyd, dylai fod gan glybiau chwaraeon y gallu i geisio iawndal os oes rhaid i wirfoddolwyr o'r clwb glirio baw cŵn o'r caeau cyn y gellir eu defnyddio.

Nid ydym am wneud mynd â chi am dro'n anoddach; ein nod, yn syml, yw diogelu chwaraewyr.

# 1. Y cefndir

Mae'n anghyfreithlon i berchnogion cŵn beidio â glanhau baw eu cŵn mewn man cyhoeddus. Mae esemptiad ar gyfer rhai mathau o dir cyhoeddus yng Nghymru a Lloegr, gan gynnwys: tir a ddefnyddir ar gyfer amaethyddiaeth neu goetiroedd; tir comin gwledig; tir sy'n gorstir, rhostir neu weundir yn bennaf; a phriffyrdd gyda therfyn cyflymder o 50mya neu fwy.

Mae gan awdurdodau sbwriel ddyletswydd statudol o dan adran 89 o *Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990* (fel y'i diwygiwyd) i sicrhau, cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol, bod eu tir yn cael ei gadw'n glir o sbwriel (gan gynnwys gwastraff cŵn). Mae 'awdurdodau sbwriel' yn cyfeirio'n gyffredinol at awdurdodau lleol, ond mae hefyd yn cynnwys sefydliadau addysgol a'r Goron (yn achos ei dir ei hun ym mhob achos) a'r Ysgrifennydd Gwladol.

Yng Nghymru a Lloegr, gall awdurdodau lleol roi dirwyon yn y fan a'r lle, a elwir yn Hysbysiadau Cosb Benodedig, ar gyfer baw cŵn. Gall y swm amrywio fesul awdurdod lleol, ond gall fod hyd at £150. Os bydd rhywun yn gwrthod talu'r ddirwy, gellir mynd ag ef i'r llys a chael dirwy o hyd at £1,000.

Mae gan awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr bwerau i fynd i'r afael â baw cŵn drwy gyhoeddi Gorchmynion Diogelu Mannau Agored Cyhoeddus (Gorchmynion Rheoli Cŵn yn flaenorol).

Gall awdurdodau lleol ddefnyddio Gorchmynion Diogelu Mannau Agored Cyhoeddus i atal ymddygiad gwrthgymdeithasol fel baw cŵn mewn man cyhoeddus. Gall y Gorchmynion ei gwneud yn drosedd os yw perchnogion cŵn:

- yn methu â glanhau ar ôl eu cŵn; a/neu'n

- caniatáu i'w cŵn fynd i mewn i leoedd penodol sydd â Gorchymyn Diogelu Mannau Agored Cyhoeddus, fel meysydd chwarae neu barciau.

Gellir cyflwyno Hysbysiadau Cosb Benodedig os torrir yr amodau a osodwyd o dan y Gorchymyn Diogelu Mannau Agored Cyhoeddus.

Ni all perchnogion cŵn sydd wedi'u cofrestru'n ddall gael dirwy.

## 2. Camau gweithredu gan Lywodraeth Cymru

Mae llythyr Ysgrifennydd y Cabinet yn nodi bod baw cŵn yn fater y mae Llywodraeth Cymru yn ei gymryd o ddifrif, ac er y gall gorfodi chwarae rhan wrth fynd i'r afael â'r broblem, ei nod fu canolbwyntio ar berchenogion cŵn cyfrifol. Mae hyn wedi cynnwys cefnogi awdurdodau lleol a gweithio gyda Cadwch Gymru'n Daclus i godi ymwybyddiaeth drwy ymgyrchoedd cyfathrebu a rhaglenni addysg.

Mae'r llythyr yn amlinellu bod swyddogion Llywodraeth Cymru yn monitro'r defnydd o Hysbysiadau Cosb Benodedig drwy'r arolwg data gorfodi blynyddol o awdurdodau lleol, ac yn cysylltu â swyddogion gorfodi er mwyn helpu i ddeall y camau sy'n cael eu cymryd ledled Cymru. Ar gyfer 2022/23, cyflwynwyd 66 o Hysbysiadau Cosb Benodedig ar gyfer troseddau baw cŵn ledled Cymru, sef cynnydd o 25 yn 2021/22.

Mae'r llythyr hefyd yn cyfeirio at waith arolwg gydag awdurdodau lleol a oedd yn nodi, er bod rhai materion gweithredol yn gysylltiedig â Gorchmynion Diogelu Mannau Agored Cyhoeddus, er enghraifft y gofyniad i adolygu ac ymgynghori ar eu defnydd bob tair blynedd, roedd ffactorau lliniarol eraill yn y niferoedd cymharol isel o Hysbysiadau Cosb Benodedig yn cael eu cyhoeddi. Roedd hyn yn cynnwys cyfyngiadau cyllidebol, colli adnoddau staff oherwydd ymddeoliad neu adleoli ac nad oedd rhai awdurdodau lleol yn cyflogi cwmnïau gorfodi preifat mwyach. Nododd swyddogion awdurdodau lleol hefyd y gall fod yn anodd dal perchnogion cŵn anghyfrifol hyd yn oed gydag argaeledd adnoddau gorfodi. Y rheswm am hyn yw bod angen i swyddog gorfodi fod yn dyst i'r drosedd fel arfer ac mae llawer o ddigwyddiadau fel arfer yn digwydd y tu allan i'r oriau a weithir gan swyddogion gorfodi.

Mae Ysgrifennydd y Cabinet yn dweud ar hyn o bryd nad oes unrhyw gynllun i gyflwyno unrhyw ddeddfwriaeth newydd yn y maes hwn. Dywedodd fod gan

awdurdodau lleol, fel cyrff statudol, gyfrifoldeb cyfreithiol i gadw eu tir yn glir o sbwriel (gan gynnwys gwastraff cŵn) a dywed yn y pen draw mai nhw sydd i benderfynu ar y ffordd orau o ddefnyddio'r amrywiol offer ac adnoddau sydd ar gael iddynt.

# 3. Camau gweithredu gan Senedd Cymru

Nid yw baw cŵn a chaeau chwaraeon wedi cael ei drafod yn y Senedd.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddaru o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.

**Huw Irranca-Davies AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig**
**Cabinet Secretary for Climate Change & Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1318
Ein cyf/Our ref DB/00286/24

Jack Sargeant AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
petitions@senedd.cymru

5 Ebrill 2024

Annwyl Jack

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 19 Mawrth at gyn Ddirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon a Thwristiaeth, ynglŷn â Deiseb P-06-1318. *Mae'n galw ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno deddfwriaeth newydd i fynd i'r afael â baw cŵn ar gaeau chwaraeon*. Fi sy'n anfon ateb atoch am fod polisïau sy'n ymwneud ag ansawdd yr amgylchedd lleol yn rhan o fy mhortffolio i.

Mae baw cŵn yn fater y mae Llywodraeth Cymru yn ei gymryd o ddifrif ac er y gall fod gan gamau gorfodi ran i'w chwarae wrth fynd i'r afael â'r broblem, ein nod yw annog perchenogaeth gyfrifol ar gŵn. Mae'r gwaith hwnnw wedi canolbwyntio'n bennaf ar gynorthwyo'r awdurdodau lleol (yr ALlau) a Cadwch Gymru'n Daclus i godi ymwybyddiaeth drwy gynnal ymgyrchoedd cyfathrebu a rhaglenni addysg. Er enghraifft, gan ddefnyddio cyllid grant a gafodd oddi wrth Lywodraeth Cymru, cynhaliodd Cadwch Gymru'n Daclus ymgyrch am flwyddyn gyfan o dan ei rhaglen *Caru Cymru*. Roedd yr ymgyrch *'Gadael olion pawennau yn unig'* yn canolbwyntio ar newid ymddygiad a chodi ymwybyddiaeth ar raddfa genedlaethol er mwyn lleihau baw cŵn. Roedd yr ymgyrch yn cynnwys datblygu pecyn cymorth cyfathrebu i'w ddefnyddio gan yr awdurdodau lleol a phartneriaid eraill. Cynhaliwyd treialon hefyd yn ardaloedd rhai o'r awdurdodau lleol er mwyn helpu i annog pobl i lanhau ar ôl eu cŵn.

Pan fydd mesurau ataliol o'r fath yn methu, a pherchnogion cŵn anghyfrifol yn dewis anwybyddu'r gyfraith, mae sawl opsiwn gorfodi ar gael i'r awdurdodau lleol. Yn eu plith y mae'r gallu i gyflwyno Hysbysiadau Cosb Benodedig o hyd at £150 i'r perchnogion cŵn hynny sy'n cael eu dal yn peidio â chodi gwastraff eu cŵn, a sefydlu Gorchmynion Diogelu Mannau Cyhoeddus. Gellir defnyddio'r Gorchmynion hyn i wahardd rhai gweithgareddau gyda chŵn mewn ardal benodol, er enghraifft, atal mynediad i fannau cyhoeddus penodol (gan gynnwys parciau) neu ei gwneud yn ofynnol i gadw cŵn dan reolaeth, sy'n gallu helpu i atal baw cŵn yn yr ardaloedd hynny. Gellir rhoi Hysbysiadau Cosb Benodedig am dorri'r amodau a osodir o dan Orchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy'n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae swyddogion yn monitro'r defnydd a wneir o Hysbysiadau Cosb Benodedig drwy'r arolwg blynyddol sy'n cael ei gynnal i gasglu data am gamau gorfodi a gymerir gan yr awdurdodau lleol, ac maent yn cysylltu â swyddogion gorfodi er mwyn iddynt gael deall y camau sy'n cael eu cymryd ym mhob rhan o Gymru. Gallaf gadarnhau bod 66 o Hysbysiadau Cosb Benodedig wedi cael eu rhoi am droseddau baw cŵn yn ystod blwyddyn adrodd 2022/23, sef 25 yn fwy na'r Hysbysiadau Cosb Benodedig a roddwyd yn ystod 2021/22. Roedd y safbwyntiau a fynegwyd gan yr awdurdodau mewn ymateb i'r arolwg hwnnw yn dangos, er bod ambell broblem gweithredol yn codi gyda Gorchmynion Diogelu Mannau Cyhoeddus, er enghraifft, y gofyniad i fynd ati bob tair blynedd i adolygu ac ymgynghori ynglŷn â'r defnydd ohonynt, fod ffactorau lliniarol eraill yn y niferoedd cymharol isel o Hysbysiadau Cosb Benodedig sy'n cael eu rhoi. Ymhlith y problemau hynny yr oedd cyfyngiadau ar gyllidebau, colli adnoddau staff oherwydd eu bod yn ymddeol neu'n cael eu hadleoli, a'r ffaith nad yw rhai o'r awdurdodau lleol bellach yn cyflogi cwmnïau gorfodi preifat. Mae swyddogion yr ALlau hefyd wedi nodi, hyd yn oed bod camau gorfodi ar gael iddynt, y gall fod yn anodd dal perchnogion cŵn anghyfrifol, gan fod angen fel arfer i swyddog gorfodi fod yn dyst i'r drosedd, a bod llawer o'r achosion hyn yn digwydd y tu allan i oriau gwaith y swyddogion gorfodi.

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i fonitro ac adolygu'r defnydd o'r camau gorfodi presennol, ond ar hyn o bryd nid oes unrhyw fwriad i gyflwyno unrhyw ddeddfwriaeth newydd. Dylid nodi hefyd, gan fod yr awdurdodau lleol yn gyrff statudol, fod cyfrifoldeb cyfreithiol arnynt i gadw'u tir a'u priffyrdd yn glir ac yn ddi-sbwriel (gan gynnwys gwastraff cŵn) ac mai, yn y pen draw, mater iddyn nhw yw penderfynu sut orau i ddefnyddio'r gwahanol ddulliau ac adnoddau sydd ar gael iddynt.

Yn gywir,



**Huw Irranca-Davies AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig**
**Cabinet Secretary for Climate Change & Rural Affairs**

**P-06-1209 Dylid creu rhestr o bob gofalwr di-dâl yng Nghymru**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Mike O'Brien, ar ôl casglu cyfanswm o 77 lofnodion.

**Geiriad y ddeiseb**:
Mae Llywodraeth Cymru wedi dweud ers cryn amser bellach ei bod hi’n dasg anodd nodi gofalwyr di-dâl, felly mae’r ddeiseb hon yn galw am greu cofrestr genedlaethol o ofalwyr i’w gwneud yn haws nodi pwy yw’r gofalwyr di-dâl.

**Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- Bro Morgannwg
- Canol De Cymru

**Julie Morgan AS/MS**
**Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Deputy Minister for Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1209
Ein cyf/Our ref JMSS/00791/23

Jack Sargeant MS
Member of the Senedd for Alyn & Deeside
Senedd Cymru
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1SN
Jack.Sargeant@senedd.wales

03 January 2024

Dear Jack,

Thank you for your letter of 14 December 2023 in relation to petition P-06-1209 on the creation of a national list of all unpaid carers in Wales. This response is further to my correspondence on this subject on 8 October 2021, 10 January 2023, 7 September 2023 and 1 November 2023.

I have previously outlined my commitment to promote self-identification by unpaid carers and recognition of carers by professionals: most significantly health, education and social care practitioners. This remains the first priority of our national unpaid carers strategy and we continue to fund and work closely with the national carers organisations to improve professional recognition and the recording of information on unpaid carers. There is ongoing work by Welsh Government officials to improve the data on unpaid carers reported by local authorities. A framework for consistent and comprehensive local authority data reporting on unpaid carers is in development.

The feasibility of a national carers register has been looked into thoroughly. I have concluded that, as it was envisioned, it would not be of significant value or benefit to unpaid carers, or other stakeholders. This view has been supported by Carers Wales and Carers Trust Wales and by the Ministerial Advisory Board for Unpaid Carers, following its last meeting on 25 September 2023.

One of the issues arising from the exploratory work into a register has been that, due to GDPR restrictions, Welsh Government cannot access details of individual unpaid carers held by local authorities, health boards and other organisations to create a national list. Individuals would need to sign up to a Welsh Government list, in addition to the other lists mentioned. Other list holders would need to continue with their own lists for their own purposes.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Julie.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

This would create uncertainty around accuracy and representativeness of any collated data used from such a list. Some people who do not readily identify themselves as unpaid carers are unlikely to subscribe to an additional list, are harder to reach due to not being online or may not wish to share their details in any event. Where people's circumstances and personal data changes, they would need to proactively update their personal information. Due to the difficulties associated with this, a register generated in this way could not be used to collect accurate data on the numbers of unpaid carers in Wales and their circumstances.

While I have outlined this in previous correspondence, the purpose of repeating is to respond to the request for clarification in your last letter about the 'verification of unpaid carer status'.

If existing or newly developed 'carers' card' schemes were to be considered as potential sources of data on unpaid carers, in addition to their primary purpose, the currency and reliability of any data drawn would need to be very carefully considered. I do not view this as a matter of trust, but more about the difficulties in reaching the levels of confidence in data sufficient for use by Welsh Government in its official statistics.

My officials have been in touch with the petitioner and have indicated they are interested to follow the progress of the digital version of the Carers UK card in Cardiff and the Vale of Glamorgan.

My officials have arranged a face-to-face meeting with the petitioner in January to discuss any potential misunderstandings with regard to Welsh Government support for unpaid carers.

Yours sincerely,

**Julie Morgan AS/MS**
Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol
Deputy Minister for Social Services

# Eitem 3.2

**P-06-1217 Agor canolfannau/clinigau meddygol un stop Covid Hir**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Lawson Webb, ar ôl casglu cyfanswm o 1,214 lofnodion.

**Geiriad y ddeiseb**:
Mae 1,000 o bobl yn dioddef o Covid hir nad ydynt yn cael unrhyw gymorth meddygol. Rydym yn teimlo ein bod yn cael ein hanwybyddu ac yn ddiymadferth. Mae ein bywydau wedi'u dinistrio.

**Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- Pontypridd
- Canol De Cymru

**Eluned Morgan AS/MS**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1217
Ein cyf/Our ref EM/00304/24

Jack Sargeant AS
Cadeirydd – y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

11 Mawrth 2024

Annwyl Jack,

Diolch am eich llythyr pellach ar 5 Chwefror ar ran y Pwyllgor Deisebau yn ymwneud â gwasanaethau ar gyfer pobl â COVID Hir.

Roedd yn ddrwg gennyf ddarllen nad oes cyfarfod wedi'i drefnu eto rhwng y deisebydd a'm swyddogion. Nodaf fod prif ddeisebydd newydd erbyn hyn, sef Ms Georgia Walby, a byddaf yn gofyn i'm swyddogion gysylltu â hi cyn gynted â phosibl.

Yn gywir,

**Eluned Morgan AS/MS**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**P-06-1217 Open Long Covid one stop medical hubs & clinics - Correspondence from the petitioner to the Committee, 17 April 2024.**

Dear Petitions Committee

Thank you for your email.

I can confirm that I have met with the officials mentioned by the Heath Minister. It seemed to be a productive meeting, and useful action points were promised. There has been no follow up as yet as the person leading the meeting told me she would be on leave for most of April and would get back to me on her return.

The only other comment I would like to add is that it has been disappointing that the Heath Minister herself has again declined to meet with us - it gives the impression that hearing about the lived experience of people with long covid is not a priority.

Thanks for all of your help in this matter,

**P-06-1247 Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i arwain y ffordd drwy gefnogi treialon wythnos waith pedwar diwrnod yng Nghymru**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Mark Hooper, ar ôl casglu cyfanswm o 1,619 lofnodion.

**Geiriad y ddeiseb**:
Mae symud i wythnos waith pedwar diwrnod yn rhoi hwb i gynhyrchiant a lles gweithwyr.
Ar ôl treialon llwyddiannus o wythnos waith fyrrach yng Ngwlad yr Iâ – heb ostyngiad mewn cyflogau – mae llywodraethau yn yr Alban, Iwerddon a Sbaen i gyd yn datblygu eu cynlluniau peilot eu hunain ar gyfer wythnos waith pedwar diwrnod, a fydd yn dechrau'r flwyddyn nesaf. Mae gwaith o ddifrif yn cael ei wneud i symud tuag at wythnos waith pedwar diwrnod yng Ngwlad Belg, Seland Newydd, yr Almaen a Siapan hefyd.
Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i arwain y ffordd drwy gefnogi treialon wythnos waith pedwar diwrnod yng Nghymru.

**Gwybodaeth Ychwanegol**:
Pan dreialodd Microsoft wythnos pedwar diwrnod heb ostyngiad mewn cyflogau yn eu swyddfa yn Japan, cafwyd cynnydd o 40 y cant mewn cynhyrchiant.
